Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales



Y Pwyllgor ar Ariannu Ysgolion

# Adroddiad ar Drefniadau Ariannu Ysgolion yng Nghymru

Mehefin 2006

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cymru.gov.uk**

Gwasanaeth y Pwyllgorau

| | | |
|---|---|---|
| Stephen George | - | Clerc y Pwyllgor |
| Ruth Hatton | - | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |
| Joel Steed | - | Swyddog Cymorth y Pwyllgor |

I gael rhagor o gopïau caled o'r ddogfen hon cysylltwch â:

Gwasanaeth y Pwyllgorau
Y Pwyllgor ar Ariannu Ysgolion
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8618
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: **addysg.com@cymru.gsi.gov.uk**

ISBN 0 7504 8839 5 APS/659/1/05-06 © Hawlfraint 2006

## Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd**

**Aelodau'r Pwyllgor**


| **Y Prif Adroddiad** | | **Tudalen** |
|---|---|---|
| Adran 1 | Cefndir a Chylch Gorchwyl | 1 |
| Adran 2 | Cyflwyniad | 1 |
| Adran 3 | Rhaglen Waith y Pwyllgor | 2 |
| Adran 4 | Y Sail Ystadegol | 3 |
| Adran 5 | Cyllid Llywodraeth Leol | 4 |
| Adran 6 | Cyrhaeddiad Addysgol | 6 |
| Adran 7 | Amrywiadau rhwng awdurdodau | 6 |
| Adran 8 | Amrywiadau rhwng ysgolion | 9 |
| Adran 9 | Cymharu Cymru a Lloegr | 10 |
| Adran 10 | Cyllidebau – Ariannu canolog neu atebolrwydd lleol? | 12 |
| Adran 11 | Adroddiadau Grant Arbennig a Grantiau Penodol | 13 |
| Adran 12 | Ffynonellau incwm, dulliau ariannu a fformiwla ariannu genedlaethol | 14 |
| Adran 13 | Cyllidebau tair blynedd | 16 |
| Adran 14 | Materion cynllunio cyllidebol eraill | 17 |
| Adran 15 | Arian Cyfalaf | 17 |
| Adran 16 | Monitro | 18 |
| Adran 17 | Crynodeb o'r argymhellion | 19 |

A Rhestr o'r dystiolaeth a gasglwyd yn gyhoeddus

B Dadansoddiad Ystadegol o Gyllidebau'r Awdurdodau Lleol ar gyfer Addysg yng Nghymru 2004-05

C Cyfraddau dirprwyo a gyllidebwyd gan yr awdurdodau addysg lleol, fesul awdurdod

D Cymhariaeth o'r rhagolygon cyfalaf a'r alldro cyfalaf ar gyfer addysg, fesul awdurdod unedol

E Gwariant cyfalaf ar addysg, punt y pen

F Addysg fel canran o'r holl wasanaethau, cyfalaf, fesul awdurdod unedol

G Prif ffynonellau arian ar gyfer ysgolion yng Nghymru

H Ffactorau neu feini prawf ychwanegol y caniateir eu cymryd i ystyriaeth mewn fformiwla Awdurdod Addysg Lleol

I Yr Adroddiadau Grant Arbennig a gymeradwywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym maes addysg

J Cludiant o'r cartref i'r ysgol (gwariant cyfredol net, fesul awdurdod)

K Rhestr o Dermau

## Rhagair y Cadeirydd

Ni chafodd y cynnig i sefydlu'r Pwyllgor ar Ariannu Ysgolion gefnogaeth unfrydol ar draws y Cynulliad. Serch hynny, mae'r Pwyllgor wedi cydweithio'n effeithiol. Mae'n deyrnged i holl Aelodau'r Pwyllgor eu bod wedi llwyddo i roi ystyriaethau pleidiau gwleidyddol i'r naill ochr a chytuno'n unfrydol ar yr adroddiad hwn. Mae'n deyrnged hefyd i aeddfedrwydd y Cynulliad bod y Pwyllgor wedi gallu canolbwyntio ar fater o bwys gwirioneddol a mynd i'r afael ag ef yn bwrpasol ar draws ffiniau gwleidyddol.

Rhaid rhoi diolch hefyd i Lywodraeth y Cynulliad. Er ei bod wedi gwrthwynebu sefydlu'r Pwyllgor yn y lle cyntaf, mae wedi cydweithio'n llwyr â ni yn ystod ein hadolygiad. Carwn ddiolch yn arbennig i Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, am roi tystiolaeth i'r Pwyllgor ar nifer o wahanol faterion. Rwyf hefyd yn ddiolchgar i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, am ganiatáu i ni holi ei swyddogion ynghylch agweddau manwl ar gyllid llywodraeth leol.

Wrth drafod, bu i ni ganolbwyntio ar dri mater, sef cymariaethau â Lloegr, y loteri cod post honedig a'r niwl ariannu. Rwy'n falch i'r Pwyllgor gydnabod y gall cymariaethau â Lloegr a gwledydd eraill fod yn ddefnyddiol o ran craffu, ond na ddylent lywio'n polisïau yng Nghymru. Mae gofyn i'r Cynulliad ddatblygu'i bolisïau ei hun i ateb ein gofynion arbennig yng Nghymru.

Efallai bod gormod o bwyslais wedi'i roi ar y loteri cod post honedig. Mae ein hadroddiad yn tynnu sylw at amrywiadau gwirioneddol o ran ariannu ysgolion mewn gwahanol rannau o Gymru. Rydym wedi dod i'r casgliad mai un rheswm dros hyn yw'r fformiwla ariannu hanesyddol nad yw'n rhoi sylw digonol i anghenion ysgolion yn awr ac yn y dyfodol. Mae hefyd angen gwella dealltwriaeth gyffredinol o anghenion ariannu sylfaenol ysgolion. Fodd bynnag, o ddisgrifio'r sefyllfa fel loteri, nid yw'n gwneud cyfiawnder â gweision cyhoeddus proffesiynol ac ymroddgar yr awdurdodau lleol, na'r Cynghorwyr lleol ychwaith. Maent yn gweithio'n galed i sicrhau bod ysgolion yn cael yr arian y maent yn credu sydd ei angen arnynt ac maent yn ceisio gwneud penderfyniadau rhesymol gan gymryd i ystyriaeth nifer o faterion lleol sy'n gwrthdaro â'i gilydd. Yn anffodus, mae'r system ariannu sy'n seiliedig ar y gorffennol ac nid ar y dyfodol yn llesteirio'u gwaith.

Disgrifir y trefniadau cyfredol fel niwl ariannu ac yn hyn o beth mae'r disgrifiad yn adlewyrchu'r realiti. Treuliodd y Pwyllgor gryn amser yn pwyso a mesur y mater hwn a chafodd dystiolaeth arno gan ystadegwyr y Llywodraeth. Serch hynny, roedd y system yn dal i ymddangos yn gymhleth ac yn anhyblyg, ac nid oedd yn glir pwy oedd yn atebol am beth. Roedd yn anodd i ni ddeall y system, ond mae'n rhaid ei bod yn anos byth i athrawon, llywodraethwyr a rhieni ei deall gan nad oes ganddynt yr un amser na'r un adnoddau wrth law er mwyn i'r system gael ei hegluro wrthynt. Rwy'n mawr obeithio y bydd ein hargymhellion

o leiaf yn esgor ar drafodaeth ynghylch sut i greu system ariannu ysgolion sy'n fwy agored, sy'n fwy atebol ac sy'n ymateb yn well i anghenion disgyblion heddiw ac yn y dyfodol.

Yn olaf, carwn ddiolch i Aelodau'r Pwyllgor, yr holl bobl sydd wedi rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor a staff Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau am eu cyfraniad at yr adroddiad hwn.

**William Graham AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

# Aelodaeth

## Y Pwyllgor ar Ariannu Ysgolion



William Graham
Cadeirydd
Plaid Geidwadol Cymru



Peter Black
Democratiaid
Rhyddfrydol Cymru



Denise Idris Jones
Y Blaid Lafur



Lynne Neagle
Y Blaid Lafur



Janet Ryder
Plaid Cymru
The Party of Wales

## 1. Cefndir a Chylch Gorchwyl

1.1 Sefydlwyd y Pwyllgor ar Ariannu Ysgolion trwy benderfyniad[1] y Cynulliad Cenedlaethol dan Reol Sefydlog 8.1 ar 14 Mehefin 2005. Penderfynodd y Cynulliad y dylai'r Pwyllgor gael dau Aelod o'r Blaid Lafur ac un aelod o Blaid Cymru, y Blaid Geidwadol a Phlaid y Democratiaid Rhyddfrydol, ac y dylai'r Pwyllgor ethol ei Gadeirydd ei hun.

1.2 Ein cylch gorchwyl, fel ag y'i nodwyd yn y penderfyniad, oedd:

1. adolygu'r holl ffynonellau incwm (refeniw a chyfalaf), sut bynnag y'u crëir, sy'n darparu cyllid ar gyfer ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd a gynhelir (yn cynnwys unedau cyfeirio disgyblion);
2. adolygu'r broses o ddyrannu cyllid i ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion;
3. ystyried effaith mentrau'r Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth y DU ar ariannu ysgolion;
4. cyflwyno argymhellion i'r Cynulliad Cenedlaethol ar symleiddio ac egluro'r system hon;
5. ymchwilio i ymarferoldeb cyflwyno cynllun cyllido tair blynedd ar gyfer ysgolion a'i adolygu;
6. cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol heb fod yn hwyrach na 12 mis ar ôl dyddiad ei gyfarfod cyntaf.

1.3 Roedd yn rhaid i'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol ddim hwyrach na 12 mis wedi dyddiad ei gyfarfod cyntaf a byddai'n peidio â bodoli ar ôl 14 Mehefin 2006.

1.4 Etholwyd Aelodau'r Pwyllgor trwy benderfyniad pellach[2] gan y Cynulliad Cenedlaethol ar 6 Gorffennaf 2005. Etholwyd yn unfrydol William Graham AC yn Gadeirydd y Pwyllgor yn ei gyfarfod cyntaf ar 28 Medi 2005.

[1] Cynnig â Dyddiad Trafod 2482 fel y'i diwygiwyd gan y Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn ar 14 Mehefin 2005.
[2] Cynnig â Dyddiad Trafod 2527 y cytunodd y Cynulliad arno yn y Cyfarfod Llawn ar 6 Gorffennaf 2005.

## 2. Cyflwyniad

2.1 Yn yr adroddiad hwn, rydym yn cyflwyno cyfres o argymhellion i geisio sicrhau bod y cyllid sydd ar gael ym maes addysg yn cael ei ddyrannu i awdurdodau lleol ac ysgolion Cymru mewn ffordd fwy tryloyw, gwrthrychol a theg.

2.2 Aethom ati i wneud ein gwaith gan ganolbwyntio ar dri phrif faes, sef:

- a oes gan ysgolion Cymru ddigon o arian i'w galluogi i ddarparu'r addysg orau bosib i'n plant yn yr unfed ganrif ar hugain;
- a yw'r arian yn cael ei ddosbarthu'n wrthrychol ac yn deg ar draws Cymru;
- a yw'r arian yn cael ei ddosbarthu mewn ffordd dryloyw ac mewn ffordd y mae'r rheini sydd angen deall y system yn ei deall.

2.3 Bu'n anodd cael hyd i atebion pendant i'r ddau gwestiwn cyntaf. Ymddengys bod y cyllid cyffredinol sydd ar gael i ysgolion Cymru, a'r ffordd y caiff y cyllid hwnnw ei ddosbarthu, yn seiliedig ar batrymau gwario hanesyddol yn hytrach nag ar unrhyw asesiad gwrthrychol o anghenion ysgolion yn awr ac yn y dyfodol.

2.4 Nid yw'r patrwm hanesyddol hwn yn helpu athrawon, llywodraethwyr a rhieni i ddeall pam fod eu hysgolion nhw'n cael swm penodol o arian pan fo'n ymddangos bod ysgolion neu ardaloedd tebyg yn cael symiau gwahanol iawn o arian. Mae'r patrwm hanesyddol hwn hefyd yn peri iddi fod yn anodd iawn i lunwyr polisïau yng Nghymru wneud asesiadau gwrthrychol o'r anghenion cyffredinol a chraffu ar lefelau ariannu cyffredinol ysgolion, gan gynnwys pwyso a mesur a yw mentrau newydd yn cael eu hariannu'n briodol.

2.5 Mae rhai o'n hargymhellion yn fwy sylfaenol nag eraill. Yn arbennig, credwn ei bod yn hanfodol bod y trefniadau cyffredinol ar gyfer ariannu ysgolion yn cael eu seilio ar asesiad gwrthrychol o anghenion ysgolion yn awr ac yn y dyfodol. Ein prif argymhelliad yn y maes hwn (argymhelliad 5) yw y dylai Llywodraeth y Cynulliad adolygu'r elfen addysg yn y fformiwla dosbarthu cyllid llywodraeth leol er mwyn ei seilio ar gost darparu addysg yn awr ac yn y dyfodol yn hytrach nag ar gostau hanesyddol.

2.6 Ochr yn ochr â fformiwla ariannu sy'n edrych at y dyfodol, ein hargymhellion allweddol eraill (argymhellion 15, 16 ac 17) yw y dylai Llywodraeth y Cynulliad bennu gofynion ariannu sylfaenol ar gyfer pob ysgol yng Nghymru ac y dylid disgwyl i'r awdurdodau lleol wario hyd at y lefel honno o leiaf.

2.7 O'u hystyried gyda'i gilydd, credwn y gall yr argymhellion hyn, ynghyd â'n hargymhellion eraill, helpu i godi'r niwl sy'n amgylchynu'r trefniadau ariannu ysgolion yng Nghymru ar hyn o bryd.

## 3. Rhaglen Waith y Pwyllgor

3.1 Fe wnaethom gyfarfod 11 gwaith o fis Medi 2005 hyd at fis Mai 2006 i glywed tystiolaeth gan sefydliadau ac unigolion sydd â diddordeb neu arbenigedd ym maes gwaith y Pwyllgor. Ceir rhestr gyflawn o'r rhai sydd wedi rhoi tystiolaeth yn Atodiad A i'r adroddiad hwn. Bu Aelodau'r Pwyllgor hefyd yn ymweld â nifer o ysgolion Cymru i gasglu tystiolaeth ar gyfer yr adolygiad.

3.2 Rydym am ddiolch i bawb sydd wedi'n cynorthwyo ac sydd wedi cyflwyno tystiolaeth i ni.

## 4. Y Sail Ystadegol

4.1 Yn ystod yr adolygiad, fe wnaethom ystyried gwybodaeth ystadegol helaeth iawn ar wariant ar addysg trwy Gymru, a gwybodaeth gymharol ar lefelau ariannu yn Lloegr ac mewn awdurdodau ar y ffin. Mae'r brif dystiolaeth ystadegol a ddarparwyd i'r Pwyllgor i'w gweld yn Atodiadau B i F ac mae Atodiad G yn crynhoi'r prif ffynonellau ariannu ar gyfer ysgolion yng Nghymru.

4.2 Mae'r wybodaeth a gawsom yn dangos bod amrywiadau mawr mewn gwariant ar addysg (y pen) rhwng ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru. Dangosodd y dystiolaeth a gyflwynwyd i ni ei bod yn debygol mai'r ffactorau mwyaf arwyddocaol i esbonio'r gwahaniaethau mewn lefelau gwario y pen yw trefniadau lleol a blaenoriaethau o ran gwasanaethau, yn ogystal â phatrymau gwario hanesyddol.

4.3 Roedd tystiolaeth Estyn i'r Pwyllgor, (9 Chwefror 2006) yn cynnwys rhai pwyntiau am y broses ariannu a'r diffyg tryloywder gyda golwg ar y broses a mynediad at wybodaeth:

- nid yw gwybodaeth am ariannu ar lefel leol (yn cynnwys yr Asesiad o Wariant Safonol) yn hawdd i'w chanfod
- mae'r diffyg gwybodaeth yn ei gwneud yn anodd gwneud cymariaethau dilys
- dylid ei gwneud yn amlwg o fewn yr Asesiad o Wariant Safonol a yw'r pwysoliadau o fewn y fformiwla yn adlewyrchu amcanion polisïau'r Cynulliad - er enghraifft y cwestiwn a roddir digon o bwyslais ar ffactorau economaidd-gymdeithasol o'u cymharu â theneurwydd y boblogaeth
- nid yw gwybodaeth ar wefan y Cynulliad yn hawdd i'w chanfod na'i defnyddio

- yn y llif gwybodaeth o awdurdodau addysg lleol i ysgolion, nid yw bob amser yn wir fod awdurdodau'n cyfathrebu'n effeithiol eu blaenoriaethau a'r penderfyniadau ariannol y dônt iddynt.

4.4 Daeth Estyn i'r casgliad a ganlyn:

> "Mae'r ffaith nad oes digon o wybodaeth ar gael yn gyhoeddus, felly, yn gostwng y potensial ar gyfer dealltwriaeth gyffredinol o'r materion dan sylw, gwaith ymchwil manwl a herio'r wybodaeth o'r tu allan."

4.5 Tynnodd Estyn sylw hefyd at y mater a ganlyn:

> "Nid yw'r ffaith fod penderfyniadau lleol yn cael eu gwneud am sut mae'r arian yn cael ei ddyrannu ar lefel leol yn golygu nad oes angen eglurder ar lefel strategol."

4.6 Roedd y dystiolaeth gan Estyn hefyd yn crybwyll ariannu ar gyfer camau gwahanol yn y broses addysg. Nododd fod y lefelau ariannu yn amrywio'n fawr rhwng cyfnodau allweddol. Yn arbennig, roedd gwahaniaeth eithaf dramatig rhwng y lefelau ariannu ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6 a disgyblion Blwyddyn 7, gan godi'r cwestiwn pam fod cymaint o wahaniaeth rhwng y lefelau ariannu ar gyfer y disgyblion hyn. Ymddengys bod y rhesymau'n rhai hanesyddol a bod amrywiadau o'r fath wedi'u derbyn yn hanesyddol. Roedd Estyn yn teimlo y gall fod angen herio'r rhagdybiaeth hon oherwydd ei bod yn anodd cyfiawnhau rhai o'r amrywiadau mawr o ran ariannu mewn rhai ardaloedd. Rydym yn cytuno bod hwn yn fater sy'n peri pryder ac yn teimlo nad oes digon o wybodaeth gyraeddadwy ar gael i'r cyhoedd am hyn.

**[1] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad ymchwilio i'r rheswm am y gwahaniaethau o ran lefelau ariannu rhwng y cyfnodau allweddol, ac yn enwedig rhwng disgyblion Blwyddyn 6 a Blwyddyn 7, ac y dylai gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau.**

## 5. Cyllid Llywodraeth Leol

5.1 Fe wnaethom ystyried yr Asesiad o Wariant Safonol, yn arbennig y pwysoliadau o fewn y fformiwla a roddir i'r amrywiol ddangosyddion angen - er enghraifft amddifadedd a theneurwydd y boblogaeth. Roedd tystiolaeth Estyn (9 Chwefror 2006) yn nodi y gall fod yn rhaid i ysgolion mewn amgylchiadau anodd ymateb i raddau mwy helaeth o lawer nag ysgolion eraill i unrhyw nifer o ofynion economaidd-gymdeithasol ac y gall nifer o ffactorau ychwanegu at gost yr ysgolion hynny ac at eu hanghenion o ran adnoddau. Dywedodd Estyn:

"…efallai nad yw gwahaniaethau mewn trefniadau ariannu yn adlewyrchu'n ddigonol y gwir wahaniaethau mewn angen rhwng ysgolion".

5.2 Mae amddifadedd a theneurwydd y boblogaeth yn cael eu cymryd i ystyriaeth wrth ddyrannu arian i Awdurdodau Addysg Lleol ac i ysgolion, ond ni chawsom ein hargyhoeddi fod y cydbwysedd rhwng y ddau wedi'i seilio'n gywir ar asesiad gwrthrychol o anghenion.

5.3 O ran teneurwydd y boblogaeth, nid oes unrhyw sail resymegol wedi dod i'r amlwg am y pwysoliadau penodol a ddefnyddir ac, o ran amddifadedd, nid ydym wedi'n hargyhoeddi mai'r dull gorau o fesur amddifadedd o reidrwydd yw nifer y plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

**[2] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad gychwyn ar unwaith ar adolygiad o'r pwyslais a roddir ar ffactorau megis cludiant, teneurwydd y boblogaeth ac amddifadedd wrth ddyrannu adnoddau addysg o fewn y setliad llywodraeth leol, er mwyn sicrhau bod pwysoliadau yn seiliedig ar angen gwrthrychol.**

**[3] Mae'r Pwyllgor yn llwyr gefnogi argymhelliad Swyddfa Archwilio Cymru[3] i Lywodraeth y Cynulliad y dylid cynnal adolygiad i weld ai'r hawl i gael prydau ysgol am ddim yw'r dangosydd gorau o amddifadedd ac mae'n argymell y dylid cychwyn arno cyn gynted ag sy'n bosibl.**

5.4 Mae gweithrediad y system cyllid llywodraeth leol yn dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae Rheolau Sefydlog y Cynulliad yn gofyn bod y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus yn craffu'n ffurfiol ar yr elfen hon o'r gyllideb. Fodd bynnag, caiff y rhan fwyaf o'r arian sy'n cael ei wario yn y pen draw ar addysg ei ddosbarthu drwy'r dull hwn.

**[4] Er mwyn sicrhau mwy o dryloywder a gwella'r gwaith o graffu ar y gyllideb, rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad wneud trefniadau i ganiatáu i bwyllgorau perthnasol graffu ar y gyllideb ar gyfer cyllid llywodraeth leol fel rhan o'r weithdrefn o bennu'r gyllideb bob blwyddyn.**

5.5 Rydym wedi'n siomi o ddarganfod y graddau y mae'r fformiwla ar gyfer dosbarthu arian i awdurdodau lleol yng Nghymru yn seiliedig ar batrymau gwario hanesyddol. Gan fod y rhan fwyaf o'r arian y mae awdurdodau lleol yn ei dderbyn gan Lywodraeth y Cynulliad heb ei neilltuo, rydym yn sylweddoli nad oes unrhyw beth yn atal awdurdodau rhag gwario fwy neu lai y swm a ddangosir yn eu Hasesiad Wedi'i Seilio ar Ddangosyddion ar Addysg.

---

[3] Dadansoddiad o Ariannu Ysgolion – Cyhoeddwyd ar 9 Mawrth 2006

5.6 Efallai bod yr Athro Hugh Coombs, aelod annibynnol o'r is-grŵp dosbarthu fformiwla llywodraeth leol, wedi crynhoi'r mater pan ddywedodd: "Meddyliais tybed a allem edrych ymlaen at beth y dylai ei gostio i gynnal ysgol, yn hytrach na'r hyn y mae wedi ei gostio." Aeth ymlaen i ddweud y gall fod yn bryd edrych ar y mater mewn cyd-destun ehangach, gan edrych i'r dyfodol yn hytrach nag edrych yn ôl o hyd, a hynny er bod y fformiwla bresennol o bosib yn gwbl gadarn.

**[5] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad gychwyn ar unwaith ar adolygiad o'r fformiwla dosbarthu cyllid llywodraeth leol fel bod yr elfen addysg yn seiliedig ar y costau cyfredol a chostau darparu gwasanaethau addysg yn y dyfodol yn hytrach nag ar gostau hanesyddol.**

## 6. Cyrhaeddiad addysgol

6.1 Er ei fod mewn gwirionedd y tu allan i'n cylch gwaith, yr ydym wedi bod yn awyddus i brofi ai gwahaniaethau o ran lefelau ariannu rhwng ysgolion ac awdurdodau sy'n gyfrifol am wahaniaethau o ran cyrhaeddiad addysgol, ac i ba raddau y mae hynny'n wir. Ymddengys yn hunaneglur fod cysylltiad anorfod rhwng ariannu a chyrhaeddiad, ni waeth pa mor fach ydyw o'i gymharu â ffactorau eraill, ond cawsom ein synnu o ddarganfod mai ychydig iawn o dystiolaeth sydd ar gael i gefnogi'r gosodiad hwn.

6.2 Dywedodd y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn ei thystiolaeth nad oes "unrhyw dystiolaeth o ran lefel mewnbwn … o effaith ar addysg a chyrhaeddiad addysgol". Aeth ymlaen i ddweud yng nghyd-destun amddifadedd a chyrhaeddiad nad oedd unrhyw gysylltiad "yn deillio'n uniongyrchol o faterion ariannol" a chytunodd fod angen mwy o ymchwil yn y maes hwn.

**[6] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad gomisiynu ymchwil manwl i effaith amrywiadau mewn ariannu ar gyrhaeddiad disgyblion ar ôl cymryd i ystyriaeth newidion eraill megis amddifadedd a theneurwydd y boblogaeth.**

## 7. Amrywiadau rhwng awdurdodau

7.1 Yn ei thystiolaeth (25 Ionawr 2006), rhoddodd y Gyfarwyddiaeth Ystadegol (rhan o Wasanaeth Ystadegol y Llywodraeth) esboniad i'r Pwyllgor o'r ystadegau a gyhoeddwyd ar Gyllidebau Awdurdodau Lleol ar gyfer Addysg yng Nghymru 2004-05, ac adroddiad ar gyllidebau a osodwyd gan awdurdodau lleol yng Nghymru ar gyfer gwasanaethau addysg 2005-06. Fe wnaethom nodi trwy Gymru fod oddeutu 70% o gyllideb addysg awdurdodau lleol yn cael ei ddirprwyo i ysgolion unigol. Roedd y cymariaethau a ddarparwyd ar draws awdurdodau yn dangos bod y cyfraddau dirprwyo

ar gyfer 2005-06 yn amrywio o 71.1% (ar Ynys Môn) i 81.2% (ym Mhen-y-bont ar Ogwr).

7.2 Yn ei thystiolaeth, rhoddodd Cymdeithas y Cyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru (25 Ionawr 2006) wybod i ni fod awdurdodau lleol yn darparu gwahanol wasanaethau canolog mewn gwahanol ardaloedd yn ôl anghenion lleol. Mae hyn yn effeithio ar y cyfraddau dirprwyo a welir yn yr ystadegau a gyhoeddwyd gan y Gyfarwyddiaeth Ystadegol ac a ddarperir yn flynyddol i'r Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau.

7.3 Rhoddodd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru dystiolaeth inni (15 Mawrth 2006) ynglŷn â'r cynllun Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar gyfer athrawon. Fe wnaethom nodi bod rhai awdurdodau yn dirprwyo'r gyllideb Datblygiad Proffesiynol Parhaus yn gyfan gwbl i ysgolion ac yna'n gwahodd ysgolion i brynu'n ôl i mewn i wasanaeth awdurdod lleol. Mae awdurdodau eraill yn cadw cyfran uwch i gynnal beth sydd mewn gwirionedd yn wasanaeth cynghori. Hefyd, mae esiamplau o gydweithio trawsffiniol ymhlith awdurdodau. Roedd tystiolaeth Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn galw am eglurder ar swm a ffynhonnell yr arian a ddarperir ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus.

7.4 Cafodd y mater amrywiad rhwng awdurdodau ei astudio yn yr ymchwil diweddar a wnaethpwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru. Fe ystyriodd y Swyddfa Archwilio'r cwestiwn:

"*pam fod amrywiad o tua £1,000 fesul disgybl rhwng lefelau cyfartalog uchaf ac isaf awdurdodau lleol o ariannu ysgolion yng Nghymru*?"

7.5 Cyflwynodd Swyddfa Archwilio Cymru ganlyniadau ei hymchwil i'r Pwyllgor yn ein cyfarfod ar 30 Mawrth 2006 (yr oedd eisoes wedi cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau). Fe wnaeth y Swyddfa Archwilio'r argymhellion canlynol:

*"Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:*

*A1 Yn ei adolygiad nesaf o'r ffordd y dosberthir cyllid addysg awdurdodau lleol, asesu p'un a yw lefel cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim yn cynrychioli'r dangosydd amddifadedd gorau.*

*A2 Datgan y cyfyngiadau yn glir fel sail ar gyfer cymharu'r data cyllid addysg a gofnodir yn flynyddol.*

*Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru a swyddogion y cynghorau:*

*A3 Cydweithio i sicrhau cysondeb yn y modd y cwblheir Ffurflenni Cyfrifon Refeniw 2007/2008, ac wedi hynny dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyhoeddi canllawiau diwygiedig.*

*Dylai cynghorau:*

*A4 Cyhoeddi crynodeb blynyddol sy'n dangos dadansoddiad o'r ffactorau sydd wedi dylanwadu ar y gyllideb nesaf ar gyfer y sector cynradd, uwchradd ac ysgolion arbennig. Dylai'r crynodeb ddangos Cyllideb Ysgolion Unigol y flwyddyn flaenorol ar gyfer pob sector, a'r cynyddiadau a'r gostyngiadau a achoswyd gan bob un o'r ffactorau sy'n cyfrannu at y gyllideb newydd.*

*A5 Gweithio gyda'r Fforwm Cyllidebau Ysgolion i adolygu'r fformiwla ariannu ysgolion, a, lle bod angen:*
- *egluro'r modd y caiff arian ei ddyrannu yn fwy eglur;*
- *asesu p'un a yw'r fformiwla ariannu ysgolion yn adlewyrchu'r costau ychwanegol a ddaw i ran ysgolion sy'n gwasanaethu ardaloedd difreintiedig yn ddigonol.*

7.6 Rhoddodd y Gweinidog adroddiad i'r Pwyllgor ar 30 Mawrth 2006 ynglŷn ag adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru a dywedodd:

"Mae'r adroddiad serch hynny yn gwneud nifer o argymhellion - dau ar gyfer Llywodraeth y Cynulliad yn unig ac un ar y cyd â swyddogion cynghorau - y byddaf i am eu hystyried yn fanylach gyda'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus. Byddwn hefyd eisiau gofyn barn Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar y ddau argymhelliad i gynghorau. Fy ymateb cychwynnol yw y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gallu derbyn yr argymhellion yn gyflawn. Yn benodol, yr ydym yn cydnabod yr hyn y mae'r adroddiad yn ei ddweud ynglŷn â thaclo amddifadedd a byddwn yn meddwl yn ofalus sut y byddwn yn bwrw ymlaen yn hynny o beth. Byddaf yn rhoi ymateb manwl, gan gynnwys amserlenni ar gyfer gweithredu, o fewn chwe wythnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad."

**[7] Rydym yn argymell, yn unol ag argymhelliad Swyddfa Archwilio Cymru, y dylai Llywodraeth y Cynulliad beri iddi fod yn ofynnol i bob awdurdod lleol anfon crynodeb blynyddol o'r gyllideb i ysgolion yn eu hardal, yn dangos y ffactorau sydd wedi arwain at newidiadau yng nghyllidebau ysgolion.**

**[8] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad gyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol i sicrhau bod y crynodeb blynyddol o'r gyllideb yn gyson ar draws holl ffiniau llywodraeth leol a bod llwybrau archwilio clir a chyson yn cael eu sefydlu a'u monitro.**

7.7 Fe nodwn fod adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn mynegi pryder ac yn gwneud argymhelliad am y canllawiau a'r broses adrodd gyda golwg ar system gyfrifo'r cyfrifon refeniw ("RA"). Rydym yn falch iawn o nodi bod swyddogion y Llywodraeth wedi dweud eu bod yn bwriadu cymryd camau i wella'r system.

**[9] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad gyhoeddi un gyfres glir o ganllawiau i awdurdodau ynghylch paratoi datganiadau cyllideb Adran 52 er mwyn sicrhau bod yr adroddiadau yn gyson.**

7.8 Rydym hefyd wedi nodi iddi fod yn anodd cael data a chymariaethau clir ar y symiau y mae awdurdodau ac ysgolion yn eu gwario yn uniongyrchol ar addysg a'r hyn y maent yn ei wario ar wasanaethau gweinyddol.

**[10] Rydym yn argymell, wrth adolygu ffurflen gyfrifo'r cyfrif refeniw ("RA"), y dylai Llywodraeth y Cynulliad sicrhau ei bod yn dod yn haws cymharu ar draws yr holl awdurdodau gyfran yr arian addysg sy'n cael ei gwario'n uniongyrchol ar addysg a'r gyfran sy'n cael ei gwario ar wasanaethau canolog a gweinyddu.**

## 8. Amrywiadau rhwng ysgolion

8.1 Thema gyson yw'r canfyddiad, a godwyd gan Benaethiaid, fod ysgolion sy'n ymddangos, ar yr wyneb, yn debyg iawn i'w gilydd yn cael lefelau gwahanol o arian. Ymddengys bod hyn yn bryder nid yn unig ar draws ffiniau awdurdodau lleol, ond o'u mewn hefyd. Er bod awdurdodau lleol trwy Gymru yn defnyddio nifer y disgyblion fel sail gyffredin i benderfynu ar ddyraniadau arian, clywsom fod elfennau eraill yn amrywio o awdurdod i awdurdod.

8.2 Rhaid i Awdurdodau Addysg Lleol (AALl) ddyrannu eu cyllidebau ysgolion unigol ar ffurf cyfran o'r gyllideb ar gyfer pob ysgol yn unol â *Rheoliadau Cyfrannau Cyllideb Ysgolion (Cymru) 2004.* Nid yw Llywodraeth y Cynulliad yn darparu unrhyw ganllawiau pellach i fynd gyda'r Rheoliadau. Mae'r Rheoliadau yn nodi:

- Rhaid ymgynghori â fforymau ysgolion, penaethiaid a llywodraethwyr ysgolion a gynhelir am unrhyw newidiadau arfaethedig i'r fformiwla ar gyfer penderfynu ar gyllidebau ysgolion.
- Rhaid i Awdurdodau Addysg Lleol bennu'r fformiwla sydd i'w defnyddio i benderfynu ar gyfrannau cyllideb ysgolion gan roi ystyriaeth i ffactorau,

meini prawf a gofynion y rheoliadau. Mae gofyn i Awdurdodau Addysg Lleol yn eu fformiwla ystyried:

- Nifer y disgyblion
- Ffactor neu ffactorau sy'n seiliedig ar amddifadedd cymdeithasol

8.3 Rhaid i AALl sicrhau bod y fformiwla yn darparu bod o leiaf 70% o gyllideb yr ysgolion unigol yn cael ei ddyrannu ar sail arian yn ôl y disgyblion.

8.4 Mae'r Atodlen i'r Rheoliadau yn cynnwys rhestr o 36 o ffactorau (a restrir yn Atodiad H) y gellir eu cymryd i ystyriaeth hefyd wrth benderfynu ar gyfrannau cyllidebau. Mae'r rhain yn cynnwys ffactorau megis disgyblion nad yw Cymraeg na Saesneg yn iaith gyntaf iddynt, costau 'cynnal' megis, ardrethi, costau ynni, glanhau ac ati, llaeth ysgol, prydau ysgol a chyflogau. Mae awdurdodau yn defnyddio cyfuniadau gwahanol o'r rhain yn eu fformiwlâu yn ôl anghenion a blaenoriaethau lleol.

8.5 Nodwyd gennym fod costau cludiant yn cael eu cadw'n ganolog gan bob awdurdod. Mae Atodiad J yn manylu ar y costau cludo o'r cartref i'r ysgol ar gyfer pob awdurdod – y pen, ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd gan ddefnyddio data a ddarparwyd gan yr AALl i Gyfarwyddiaeth Ystadegol y Cynulliad.

**[11] Pa bynnag newidiadau eraill a wneir, rydym yn argymell y dylai'r Llywodraeth weithio'n agos gyda llywodraeth leol i wella dealltwriaeth ysgolion o'r broses ariannu a'r ffrydiau ariannu.**

**[12] Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn peri iddi fod yn ofynnol i awdurdodau roi blaenoriaeth yn eu fformiwlâu dosbarthu i ddarparu cymorth wedi'i dargedu i'r ysgolion mwyaf difreintiedig yn eu hardaloedd, a dangos hyn yn eu cyllidebau ysgolion arfaethedig a gyflwynir i Lywodraeth y Cynulliad.**

## 9. Cymharu Cymru a Lloegr

9.1 Fe wnaethom ystyried y cymariaethau a gyhoeddwyd rhwng gwariant ar addysg yng Nghymru ac yn Lloegr (25 Ionawr 2006) a gweld ei bod yn anodd eu cymharu'n ystyrlon oherwydd bod gwahanol ffrydiau ariannu ar waith. Rhoddodd y Gyfarwyddiaeth Ystadegol dystiolaeth yn esbonio ei bod wedi newid sail ei chymhareb gyda Lloegr oherwydd gwelwyd bod y sail flaenorol yn ansefydlog.

9.2 O'r ystadegau a gyhoeddwyd, fe nodwyd gennym fod data ar gyfer Lloegr yn cael ei gyflwyno gan gynnwys a chan eithrio Llundain wrth wneud cymariaethau gyda Chymru. Fodd bynnag, dadleuwyd (16 Tachwedd 2005 –

yr Athro David Reynolds) nad oes unrhyw reswm dros anwybyddu'r arian y mae ysgolion Llundain yn ei gael wrth wneud cymariaethau cenedlaethol.

9.3 Rydym yn cytuno na ddylai penderfyniadau ar wariant gan y Cynulliad yng Nghymru gael eu gyrru gan gymariaethau â'r gwariant yn Lloegr, mewn rhannau eraill o'r DU neu'n rhyngwladol. Nid ydym ychwaith yn credu y dylai'r arian a ddyrennir i'r Cynulliad dan Fformiwla Barnett gael ei glustnodi at ddibenion penodol.

9.4 Fodd bynnag, mae cymariaethau ehangach yn ddefnyddiol fel meincnodau ac fel cymorth i graffu. Credwn y dylai fod yn bosibl gwneud cymariaethau ystyrlon rhwng lefelau gwario ar addysg yng Nghymru, cenhedloedd a rhanbarthau eraill y Deyrnas Unedig a gwledydd eraill.

**[13] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad gyhoeddi cymariaethau ystyrlon, wedi'u dadgyfuno cyhyd ag y bo'n bosib, o wariant addysg yng Nghymru, yng nghenhedloedd a rhanbarthau eraill y DU ac mewn gwledydd eraill, ac y dylai weithio gyda rhannau eraill o'r Llywodraeth i sicrhau bod mwy o fanylion ar gael.**

9.5 Yn yr un modd, ymddengys bod rhywfaint o ddiffyg eglurder ynglŷn â'r arian a ddarperir dan fformiwla Barnett. Dylai fod yn bosibl gosod mewn termau clir a manwl bob blwyddyn yn union pa gyfran o'r arian a ddarparwyd dan Barnett a ddaeth yn sgil gwario cymharol yn Lloegr. Pe câi'r wybodaeth ei darparu ar y cyd â chynigion blynyddol Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer y gyllideb, credwn y byddai'n helpu o ran eglurder, craffu a thrafodaeth.

9.6 Hefyd, mae'r cyhoedd yn disgwyl i arian ddod i Gymru o ganlyniad i ddatganiadau a wneir yn San Steffan. Amlinellodd y Gweinidog Cyllid grynodeb o'r fformiwla Barnett mewn Datganiad Ysgrifenedig gan y Cabinet ym mis Hydref 2005. Fodd bynnag, teimlwn fod gwybodaeth am symiau canlyniadol Barnett yn llai eglur. Gall Pwyllgorau'r Cynulliad fod am ddylanwadu ar y ffordd y caiff arian canlyniadol ei wario a rhaid iddynt gael y wybodaeth briodol i wneud hynny. Tra bod hyn y tu allan i gylch gwaith y Pwyllgor hwn, fe wnaethom nodi y gallai meysydd portffolio eraill fod â phryderon tebyg ynglŷn â thryloywder y broses a'u gallu i graffu'n briodol ar y gyllideb flynyddol.

**[14] Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau roi gwybod i'r Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau am unrhyw arian canlyniadol o dan fformiwla Barnett a dderbynnir gan Lywodraeth y Cynulliad ym maes addysg, a hynny pan dderbynnir yr arian canlyniadol.**

## 10. Cyllidebau – Ariannu Canolog neu atebolrwydd lleol?

10.1 Roedd nifer o'r rhai a roddodd dystiolaeth yn dadlau dros neilltuo mwy o'r gwariant ym maes addysg. Roedd eraill yn dadlau dros ariannu swyddogaethau craidd ysgolion yn ganolog ar sail yr hyn y mae gan ddisgyblion neu ysgolion hawl iddo. Cyflwynwyd y ddadl hon oherwydd bod rhai swyddogaethau craidd yn berthnasol i bob ysgol ac felly dylai costau'r rhain gael eu darparu'n ganolog.

10.2 Ar y llaw arall, roedd nifer o dystion, gan gynnwys y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, yn dadlau dros ryddid awdurdodau lleol i wneud penderfyniadau. Roedd y ddadl hon yn seiliedig ar egwyddor atebolrwydd democrataidd lleol a'r ffaith bod awdurdodau lleol mewn gwell sefyllfa i wneud penderfyniadau deallus a phriodol am amgylchiadau a blaenoriaethau lleol.

10.3 Derbyniwn fod gwneud penderfyniadau yn lleol yn factor allweddol i gynnal democratiaeth leol hyfyw. Derbyniwn hefyd fod awdurdodau lleol yn aml yn y sefyllfa orau i farnu amgylchiadau lleol ac i ymateb yn hyblyg ac yn sensitif i anghenion lleol. Fodd bynnag, yr ydym yn bryderus hefyd am yr amrywiadau eang iawn mewn gwariant rhwng awdurdodau lleol, ynghyd â'r canfyddiad y gall yr hyn a elwir yn "loteri cod post" effeithio ar addysg disgyblion.

**[15] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad bennu a chyhoeddi gofynion ariannu sylfaenol cyffredin safonol ar gyfer staffio ysgolion, adeiladau a chyfarpar ac y dylai'r wybodaeth hon gael ei defnyddio i feincnodi ac fel sail i wneud penderfyniadau ar lefel leol a chenedlaethol ar ariannu ysgolion. Dylai Gweinidog y Cynulliad dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau roi adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau am y camau a gymerwyd i bennu gofynion ariannu cyffredin safonol ar gyfer ysgolion.**

10.4 Pe gellid penderfynu ar hawl gyffredin, byddai hyn wrth gwrs yn pennu'r lleiafswm y byddai ei angen ar ysgolion i ddarparu'r gwasanaethau hyn. Byddai'n annidwyll credu na fyddai hyn yn rhoi pwysau ar y Llywodraeth ac awdurdodau lleol i ariannu ysgolion o leiaf i'r lefel hon. Fe fyddai cryn gyfle wrth gwrs i ddewis gwario mwy ar addysg ar lefel leol ac i weithredu a hybu mentrau cenedlaethol. Serch hynny, yn yr amgylchiadau hyn, gallai'r atebolrwydd am wneud penderfyniadau fod yn fwy eglur pe bai'r elfen hon o ariannu ysgolion yn cael ei gosod yn ganolog gan Lywodraeth y Cynulliad.

**[16] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad beri iddi fod yn ofynnol i awdurdodau adrodd yn flynyddol ar unrhyw wahaniaeth rhwng yr arian y mae'n ei ddyrannu i ysgolion a'r gofynion ariannu sylfaenol cyffredin a gyhoeddir gan Lywodraeth y Cynulliad.**

**[17] Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau a'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus gydweithio'n agos â'r awdurdodau lleol hynny sy'n ariannu ysgolion islaw'r gofynion ariannu sylfaenol cyffredin safonol i sicrhau eu bod yn gwario at y lefel hon o fewn amserlen y cytunir arni. Dylid defnyddio Asesiadau wedi'u Seilio ar Ddangosyddion Addysg fel dangosydd targed hyd nes bod gofynion ariannu sylfaenol cyffredin safonol wedi'u pennu.**

**[18] Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau roi adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau am y camau a gymerwyd gan yr awdurdodau lleol i fodloni'r gofynion ariannu cyffredin safonol ar gyfer ysgolion neu'r targedau sy'n seiliedig ar yr Asesiadau wedi'u Seilio ar Ddangosyddion Addysg yn y cyfamser.**

## 11. Adroddiadau Grant Arbennig a Grantiau Penodol

<u>Adroddiadau Grant Arbennig</u>

11.1 Yn absenoldeb unrhyw bŵer arall i dalu grantiau, gellir defnyddio darpariaethau grant arbennig dan Adran 88B *Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988* i ddosbarthu arian i un neu ragor o awdurdodau lleol. Mae angen cymeradwyaeth gan y Cynulliad i wneud y grant, ac wrth geisio hwn, dylai'r Gweinidog gyflwyno Adroddiad Grant Arbennig i'r Cynulliad sy'n amlinellu diben y grant, y meini prawf ar gyfer ei ddyrannu a phwy fydd yn ei dderbyn. Mae'r pwerau i wneud grantiau arbennig yn eang a hyblyg ond ni ellir eu defnyddio am amser amhenodol.

11.2 Gwnaed nifer o Adroddiadau Grant Arbennig mewn perthynas ag addysg ers 1999 (gweler Atodiad I). Mae'r rhain mewn tri maes:

- Y rhai a wneir i ddynodi arian ar gyfer addysg a dderbyniwyd gan y Cynulliad o ganlyniad i ddatganiadau cyllidebol a wnaethpwyd yn Lloegr ar arian sy'n cael ei gyflwyno'n uniongyrchol i ysgolion. Gwnaed tri Adroddiad Grant Arbennig o'r fath rhwng mis Mai 2000 a mis Mai 2001.

- Taliadau untro at ddibenion penodol e.e. grantiau i dalu costau sy'n gysylltiedig â phrinder arian ar gyfer taliadau trothwy athrawon neu gyflwyno rhifau disgybl unigryw.

- Ariannu tymor hirach e.e. lleihau maint dosbarthiadau Cyfnod Allweddol 2.

11.3 Dylai Grantiau Arbennig ymlynu wrth y Protocol Grantiau y cytunwyd arno gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (*Protocol ar grantiau wedi'u neilltuo* - protocol rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru). Nid oes rheol benodol ynglŷn â phryd mae grantiau o'r fath i gael eu cynnwys yn y Grant Cynnal Refeniw - caiff rhai eu cynnwys o fewn 3 blynedd, ac ystyrir bod eraill yn annhebygol o fynd i'r Grant Cynnal Refeniw yn y dyfodol agos.

Grantiau penodol

11.4 Mae Adran 14 Deddf Addysg 2002 yn darparu pŵer cyffredinol i'r Cynulliad Cenedlaethol roi cymorth ariannol at ddibenion sy'n ymwneud ag addysg a gofal plant. Defnyddir Adran 14 yn lle adran 484 Deddf Addysg 1996. O dan yr adran honno, roedd y Cynulliad yn gallu gwneud rheoliadau ar gyfer grantiau cynnal addysg a hyfforddiant. Er enghraifft, mae taliadau Grantiau Cynnal Addysg a Hyfforddiant (GCAH), sef y Gronfa Ysgolion Gwell bellach, yn cael eu talu dan adran 14 Deddf 2002 yn hytrach nag adran 484 Deddf 1996.

11.5 Yn achos taliadau grantiau refeniw ychwanegol i awdurdodau lleol ar gyfer ysgolion, fe'u gwnaethpwyd gyntaf gan ddefnyddio adroddiadau grant arbennig (adran 88B y Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol) gan nad oedd y rheoliadau oedd yn bodoli dan adran 484 Deddf 1996 yn cynnwys y dibenion yr oedd y grant i'w ddefnyddio ar eu cyfer. Fodd bynnag, gan fod pwerau dan adran 14 Deddf 2002 ar gael iddo, mae'r Cynulliad yn raddol wedi symud tuag at wneud taliadau grant dan adran 14 e.e. ysgolion bro, gwisg ysgol a Rhagori, sef cynllun newydd Llywodraeth y Cynulliad (Codi Cyrhaeddiad a Safonau Addysgol Unigolion yng Nghymru), sy'n targedu disgyblion difreintiedig.

**[19] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad osgoi cyflwyno gweithredoedd polisi anghynaliadwy trwy raglenni grantiau penodol tymor byr ac y dylai geisio darparu arian tymor hirach (yn unol â'r cynigion ar gyfer cyllidebau tair blynedd) i alluogi gwell cynllunio ariannol gan ysgolion.**

**[20] Dylai Llywodraeth y Cynulliad sicrhau nad yw buddion cynlluniau grant a ffrydiau arian newydd yn cael eu peryglu gan ddulliau bidio biwrocrataidd a beichus.**

## 12. Ffynonellau incwm, dulliau ariannu a fformiwla ariannu genedlaethol

Ffynonellau incwm

12.1 Fe wnaethom ystyried yr ystod eang o ffynonellau incwm y gall ysgolion weithio iddynt. Fe nododd Estyn, yn nhermau ansicrwydd am lefelau

adnoddau at y dyfodol, fod ariannu ysgolion yn anodd ei ragweld a bod y terfynau amser ar lawer o'r cyllid yn ei gwneud yn anodd i lawer o ysgolion gynllunio ymlaen llaw yn effeithiol.

**[21] I helpu ysgolion i gynllunio, rydym yn argymell, pan fo cynlluniau grant newydd yn cael eu cyflwyno, fod Llywodraeth y Cynulliad yn paratoi adroddiad ar gynaliadwyedd y cynllun a strategaeth ymadael ar gyfer y cynllun, a hynny fel rhan o'r canllawiau i awdurdodau ar barhad cynlluniau.**

Dulliau ariannu

12.2 O ran dulliau ariannu a gweithio mewn partneriaeth, yr oedd y dystiolaeth gan Estyn yn dadlau nad yw rhwydweithiau ardal leol yn rheoli arian craidd er eu bod yn gyfrifol am gynllunio'r ddarpariaeth. Roedd hyn, meddent, yn golygu bod ganddynt ychydig iawn neu ddim rheolaeth dros gyflwyno gwasanaeth.

Fformiwla ariannu genedlaethol?

12.3 Roedd gennym ddiddordeb mewn clywed am brofiad ELWa o weithredu fformiwla ariannu genedlaethol ar gyfer darpariaeth ar ôl 16 oed. Cawsom wybod, ar adeg ei greu (ym 1992), fod y Cyngor Cyllido Addysg Bellach wedi etifeddu wyth methodoleg gan yr wyth awdurdod lleol oedd yn bodoli ar y pryd – ac nad oedd yr un ohonynt yr un fath. Erbyn 1996, yr oedd y Cyngor Cyllido Addysg Bellach wedi gweithio i safoni'r wyth (a nifer o grantiau'r Swyddfa Gymreig gynt). Fe etifeddodd ELWa'r fethodoleg newydd hon ynghyd â methodoleg gan y cynghorau hyfforddi a menter ac, yn fwy diweddar, y 22 awdurdod addysg lleol newydd. Gofynnodd Llywodraeth y Cynulliad wedyn i ELWa ddatblygu system ariannu genedlaethol.

12.4 O ran methodoleg, nododd Estyn fod yr awdurdodau mwyaf effeithiol yn targedu arian ac adnoddau am reswm penodol a ddynodwyd trwy ddefnyddio data. Nododd fod gan nifer o AALl systemau data helaeth y gallent eu defnyddio i nodi pa broblemau sydd yn eu hysgolion ac yna i dargedu cymorth ac ymyrraeth yn unol â hynny. Fe nododd Estyn fod yr awdurdodau gorau yn aml yn gwneud rhyw fath o brawf i weld pa effaith y maent wedi'i chael ar ddiwedd y cyfnod o gymorth.

12.5 Rydym eisoes wedi argymell y dylai ystyriaeth gael ei rhoi i ofynion ariannu sylfaenol cyffredin fel erfyn meincnodi. Fodd bynnag, hyd yn oed os nad yw'r dull gweithredu hwn yn bosibl, fe all fod yn bosibl canfod methodoleg gyffredin ar gyfer awdurdodau lleol i ddyrannu arian i ysgolion. Ni fyddai hyn yn atal penderfyniadau lleol ar y swm cwantwm sy'n cael ei wario ar ariannu ysgolion, ond fe all sicrhau mwy o degwch rhwng ysgolion

yng Nghymru a mwy o dryloywder i ysgolion o ran cymharu eu harian ag ysgolion mewn ardaloedd awdurdodau lleol eraill.

**[22] Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried newid y canllawiau ar fformiwlâu ariannu awdurdodau addysg lleol i sicrhau gwell cysondeb trwy Gymru ac i leihau effaith newidiadau ariannol o flwyddyn i flwyddyn sy'n deillio o amrywiadau yn niferoedd y disgyblion.**

12.6 Fe wnaethom ystyried rôl gynyddol y fforymau cyllideb ysgolion. Yn ei dystiolaeth, nododd Estyn ei bod yn allweddol bod y wybodaeth a ddarperir gan awdurdodau i benaethiaid yn dryloyw a dywedodd fod rôl gynyddol fforymau ysgolion yn dechrau codi ymwybyddiaeth penaethiaid o'r systemau ar gyfer dosbarthu arian.

12.7 Rydym yn cydnabod ei bod yn rhy fuan i arfarnu'n llwyr effaith ac effeithiolrwydd y fforymau cyllideb ysgolion oherwydd eu bod yn syniad cymharol newydd, ond nodwn eu bod yn gyfle defnyddiol i gael trafodaethau lleol deallus.

**[23] Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn arfarnu swyddogaeth a chyfrifoldebau'r fforymau cyllideb ysgolion gyda'r nod o wella'r cyfathrebu rhwng awdurdodau ac ysgolion.**

## 13. Cyllidebau Tair Blynedd

13.1 Nodwn fod gan y Cynulliad bellach y pŵer cyfreithiol i gyflwyno cyllidebau tair blynedd. Fe wnaethom ystyried yn helaeth rinweddau cymharol system gyllidebol tair blynedd. Dywedodd nifer o'r rhai a roddodd dystiolaeth pa mor fanteisiol fyddai cyllidebau tair blynedd er mwyn galluogi ysgolion i gynllunio ymlaen llaw yn synhwyrol. Yn amlwg byddai cynnig o'r fath ar gyfer cyllidebau addysg yn gorfod cael ei weld yng nghyd-destun y setliad llywodraeth leol ehangach.

13.2 Ym mis Mawrth 2006, derbyniodd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus adroddiad interim gan y Gweinidog Cyllid ar y themâu a oedd yn dod i'r amlwg o ran cyflwyno setliadau refeniw a chyfalaf tair blynedd yng Nghymru, a hynny ar sail yr ymatebion i'r ymgynghoriad a ddaeth i ben ddiwedd mis Ionawr. Bydd cynllun gweithredu'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ac i'r Fforwm Ymgynghorol ar Gyllid yn yr haf.

13.3 Credwn fod consensws eang bellach y byddai cyllidebau tair blynedd yn gwella'r broses gynllunio ac yn gyfle i ysgolion ddefnyddio eu harian yn greadigol a chyflawn gyda llai o angen i gynnal gweddillion mawr oherwydd ofnau am brinder arian yn y dyfodol.

**[24] Rydym yn argymell y dylid cyflwyno cyllidebau tair blynedd ar gyfer ysgolion fel mater o flaenoriaeth.**

### 14 Materion cynllunio cyllidebol eraill

14.1 Cawsom dystiolaeth yn manylu ar yr amserlen ar gyfer gosod cyllidebau'r awdurdodau. Nodwyd ei bod yn ofynnol i awdurdodau, ar ôl ymgynghori gyda'u fforwm cyllideb, hysbysu Llywodraeth y Cynulliad am eu cyllidebau arfaethedig ar gyfer ysgolion erbyn 31 Ionawr bob blwyddyn. Rhaid i'r cyllidebau ar gyfer pob gwasanaeth gael eu gosod erbyn 11 Mawrth a rhaid i ysgolion gael gwybod amdanynt erbyn 31 Mawrth.

14.2 Roedd nifer o dystion yn dadlau ei bod yn anoddach mynd ati i gynllunio cyllideb oherwydd nad oeddynt yn cael gwybod yn ddigon buan am y cyllidebau perthnasol ac yn arbennig oherwydd yr hyn a ddisgrifiwyd fel diwylliant bidio biwrocrataidd am gyllid grant ar gyfer mentrau penodol. Dadleuwyd bod ar ysgolion angen cymaint o wybodaeth am gyllidebau ag sy'n bosibl, a hynny mor fuan ag sy'n bosibl.

**[25] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad beri iddi fod yn ofynnol i awdurdodau gyflwyno adroddiad blynyddol ar eu hymlyniad wrth yr amserlen ar gyfer gosod cyllideb ac y dylai'r wybodaeth hon gael ei chyflwyno'n flynyddol i'r Pwyllgor Addysg, Dysgu gydol Oes a Sgiliau.**

14.3 Roedd rhywfaint o dystiolaeth yn awgrymu nad yw'r ffaith bod y flwyddyn ariannol a'r flwyddyn academaidd yn cychwyn ar adegau gwahanol yn helpu dim ar brosesau cynllunio ariannol ysgolion. Nodwyd hefyd y gall diddymu arian ar ôl y cyfnod sefydlu cychwynnol greu trafferthion, yn enwedig os yw niferoedd y disgyblion yn newid neu os yw staff yn gadael.

### 15. Arian Cyfalaf

15.1 Gwelsom fod tipyn o amheuaeth a fyddai modd cyflawni targed Llywodraeth y Cynulliad, y dylai pob ysgol fod yn addas i'w phwrpas erbyn 2010, ar y lefelau ariannu a gynlluniwyd. Er bod rhai tystion wedi mynegi pryderon am allu technegol awdurdodau lleol i ddefnyddio arian yn effeithiol, ymddengys mai'r consensws yn syml yw bod yr arian yn annigonol.

15.2 Yn ei thystiolaeth, gwrthododd y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau unrhyw awgrym fod hyn oherwydd cwtogiad yn y Grant Gwella Adeiladau Ysgolion. Pwysleisiodd yr ymrwymiad a wnaeth yn y Cyfarfod Llawn i ddarparu i'r Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau asesiad llawn o gynnydd yr Awdurdodau Addysg Lleol yn erbyn targed Llywodraeth

y Cynulliad. Bydd yr asesiad yn cael ei rannu gyda'r Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ym mis Gorffennaf.

15.3 Mynegodd y Gweinidog bryder ynglŷn ag a yw awdurdodau lleol yn defnyddio'n ddigonol eu dyraniad cyfalaf cyffredinol eu hunain, sy'n cael ei ariannu ar ffurf dybiedig i addysg, i ategu'r arian cyfalaf penodol sy'n cael ei ddarparu i awdurdodau addysg lleol. Unwaith eto, addawodd roi adroddiad ar y materion hyn i'r Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ym mis Gorffennaf.

15.4 Erbyn i'r Gweinidog adrodd wrth y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, bydd yr adroddiad hwn wedi'i gwblhau ac nid yw'n bosibl i ni ystyried y canfyddiadau fan hyn. Fodd bynnag, os yw'r asesiad yn awgrymu na fydd y targed yn cael ei fodloni, credwn y dylai ystyriaeth gael ei rhoi i gynyddu'r adnoddau sydd ar gael i'r diben hwn unai trwy sicrhau bod adnoddau ychwanegol ar gael neu trwy neilltuo cyfran fwy o ddyraniad cyfalaf cyffredinol yr awdurdodau lleol.

**[26] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad ei gwneud yn ofynnol bod arian a ddyrennir i awdurdodau at ddibenion cyfalaf yn cael ei ddefnyddio'n llwyr fel gwariant cyfalaf ym maes addysg ac y dylai ystyried darparu adnoddau ychwanegol os yw'n dal i ymrwymo i'w nod o wneud pob ysgol yn addas i'w phwrpas erbyn 2010.**

## 16. Monitro

16.1 Gan fod y materion a grybwyllir yn yr adroddiad hwn yn dod yn bennaf o fewn cylch gwaith y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, credwn y dylai'r Pwyllgor hwnnw fod yn bennaf gyfrifol am fonitro ymateb y Llywodraeth i'r argymhellion yn yr adroddiad hwn. Efallai y bydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus hefyd am ystyried a monitro'r argymhellion sy'n ymwneud â chyllid llywodraeth leol.

**[27] Rydym yn argymell y dylai'r Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau a'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ddilyn y cynnydd i ymateb i'n hargymhellion, yn y lle cyntaf, o fewn 6 mis i ymateb cychwynnol y Llywodraeth.**

## 17.Crynodeb o'r Argymhellion

1. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad ymchwilio i'r rheswm am y gwahaniaethau o ran lefelau ariannu rhwng y cyfnodau allweddol, ac yn enwedig rhwng disgyblion Blwyddyn 6 a Blwyddyn 7, ac y dylai gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau.

2. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad gychwyn ar unwaith ar adolygiad o'r pwyslais a roddir ar ffactorau megis cludiant, teneurwydd y boblogaeth ac amddifadedd wrth ddyrannu adnoddau addysg o fewn y setliad llywodraeth leol, er mwyn sicrhau bod pwysoliadau yn seiliedig ar angen gwrthrychol.

3. Mae'r Pwyllgor yn llwyr gefnogi argymhelliad Swyddfa Archwilio Cymru[4] i Lywodraeth y Cynulliad y dylid cynnal adolygiad i weld ai'r hawl i gael prydau ysgol am ddim yw'r dangosydd gorau o amddifadedd ac mae'n argymell y dylid cychwyn arno cyn gynted ag sy'n bosibl.

4. Er mwyn sicrhau mwy o dryloywder a gwella'r gwaith o graffu ar y gyllideb, rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad wneud trefniadau i ganiatáu i bwyllgorau perthnasol graffu ar y gyllideb ar gyfer cyllid llywodraeth leol fel rhan o'r weithdrefn o bennu'r gyllideb bob blwyddyn.

5. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad gychwyn ar unwaith ar adolygiad o'r fformiwla dosbarthu cyllid llywodraeth leol fel bod yr elfen addysg yn seiliedig ar y costau cyfredol a chostau darparu gwasanaethau addysg yn y dyfodol yn hytrach nag ar gostau hanesyddol.

6. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad gomisiynu ymchwil manwl i effaith amrywiadau mewn ariannu ar gyrhaeddiad disgyblion ar ôl cymryd i ystyriaeth newidion eraill megis amddifadedd a theneurwydd y boblogaeth.

7. Rydym yn argymell, yn unol ag argymhelliad Swyddfa Archwilio Cymru, y dylai Llywodraeth y Cynulliad beri iddi fod yn ofynnol i bob awdurdod lleol anfon crynodeb blynyddol o'r gyllideb i ysgolion yn eu hardal, yn dangos y ffactorau sydd wedi arwain at newidiadau yng nghyllidebau ysgolion.

8. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad gyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol i sicrhau bod y crynodeb blynyddol o'r gyllideb yn gyson ar draws holl ffiniau llywodraeth leol a bod llwybrau archwilio clir a chyson yn cael eu sefydlu a'u monitro.

---

[4] Dadansoddiad o Ariannu Ysgolion – Cyhoeddwyd ar 9 Mawrth 2006

9. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad gyhoeddi un gyfres glir o ganllawiau i awdurdodau ynghylch paratoi datganiadau cyllideb Adran 52 er mwyn sicrhau bod yr adroddiadau yn gyson.

10. Rydym yn argymell, wrth adolygu ffurflen gyfrifo'r cyfrif refeniw ("RA"), y dylai Llywodraeth y Cynulliad sicrhau ei bod yn dod yn haws cymharu ar draws yr holl awdurdodau gyfran yr arian addysg sy'n cael ei gwario'n uniongyrchol ar addysg a'r gyfran sy'n cael ei gwario ar wasanaethau canolog a gweinyddu.

11. Pa bynnag newidiadau eraill a wneir, rydym yn argymell y dylai'r Llywodraeth weithio'n agos gyda llywodraeth leol i wella dealltwriaeth ysgolion o'r broses ariannu a'r ffrydiau ariannu.

12. Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn peri iddi fod yn ofynnol i awdurdodau roi blaenoriaeth yn eu fformiwlâu dosbarthu i ddarparu cymorth wedi'i dargedu i'r ysgolion mwyaf difreintiedig yn eu hardaloedd, a dangos hyn yn eu cyllidebau ysgolion arfaethedig a gyflwynir i Lywodraeth y Cynulliad.

13. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad gyhoeddi cymariaethau ystyrlon, wedi'u dadgyfuno cyhyd ag y bo'n bosib, o wariant addysg yng Nghymru, yng nghenhedloedd a rhanbarthau eraill y DU ac mewn gwledydd eraill, ac y dylai weithio gyda rhannau eraill o'r Llywodraeth i sicrhau bod mwy o fanylion ar gael.

14. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau roi gwybod i'r Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau am unrhyw arian canlyniadol o dan fformiwla Barnett a dderbynnir gan Lywodraeth y Cynulliad ym maes addysg, a hynny pan dderbynnir yr arian canlyniadol.

15. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad bennu a chyhoeddi gofynion ariannu sylfaenol cyffredin safonol ar gyfer staffio ysgolion, adeiladau a chyfarpar ac y dylai'r wybodaeth hon gael ei defnyddio i feincnodi ac fel sail i wneud penderfyniadau ar lefel leol a chenedlaethol ar ariannu ysgolion. Dylai Gweinidog y Cynulliad dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau roi adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau am y camau a gymerwyd i bennu gofynion ariannu cyffredin safonol ar gyfer ysgolion.

16. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad beri iddi fod yn ofynnol i awdurdodau adrodd yn flynyddol ar unrhyw wahaniaeth rhwng yr arian y mae'n ei ddyrannu i ysgolion a'r gofynion ariannu sylfaenol cyffredin a gyhoeddir gan Lywodraeth y Cynulliad.

17. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau a'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus gydweithio'n agos â'r awdurdodau lleol hynny sy'n ariannu ysgolion islaw'r gofynion ariannu sylfaenol cyffredin safonol i sicrhau eu bod yn gwario at y lefel hon o fewn amserlen y cytunir arni. Dylid defnyddio Asesiadau wedi'u Seilio ar Ddangosyddion Addysg fel dangosydd targed hyd nes bod gofynion ariannu sylfaenol cyffredin safonol wedi'u pennu.

18. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau roi adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau am y camau a gymerwyd gan yr awdurdodau lleol i fodloni'r gofynion ariannu cyffredin safonol ar gyfer ysgolion neu'r targedau sy'n seiliedig ar yr Asesiadau wedi'u Seilio ar Ddangosyddion Addysg yn y cyfamser.

19. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad osgoi cyflwyno gweithredoedd polisi anghynaliadwy trwy raglenni grantiau penodol tymor byr ac y dylai geisio darparu arian tymor hirach (yn unol â'r cynigion ar gyfer cyllidebau tair blynedd) i alluogi gwell cynllunio ariannol gan ysgolion.

20. Dylai Llywodraeth y Cynulliad sicrhau nad yw buddion cynlluniau grant a ffrydiau arian newydd yn cael eu peryglu gan ddulliau bidio biwrocrataidd a beichus.

21. I helpu ysgolion i gynllunio, rydym yn argymell, pan fo cynlluniau grant newydd yn cael eu cyflwyno, fod Llywodraeth y Cynulliad yn paratoi adroddiad ar gynaliadwyedd y cynllun a strategaeth ymadael ar gyfer y cynllun, a hynny fel rhan o'r canllawiau i awdurdodau ar barhad cynlluniau.

22. Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried newid y canllawiau ar fformiwlâu ariannu awdurdodau addysg lleol i sicrhau gwell cysondeb trwy Gymru ac i leihau effaith newidiadau ariannol o flwyddyn i flwyddyn sy'n deillio o amrywiadau yn niferoedd y disgyblion.

23. Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn arfarnu swyddogaeth a chyfrifoldebau'r fforymau cyllideb ysgolion gyda'r nod o wella'r cyfathrebu rhwng awdurdodau ac ysgolion.

24. Rydym yn argymell y dylid cyflwyno cyllidebau tair blynedd ar gyfer ysgolion fel mater o flaenoriaeth.

25. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad beri iddi fod yn ofynnol i awdurdodau gyflwyno adroddiad blynyddol ar eu hymlyniad wrth yr

amserlen ar gyfer gosod cyllideb ac y dylai'r wybodaeth hon gael ei chyflwyno'n flynyddol i'r Pwyllgor Addysg, Dysgu gydol Oes a Sgiliau.

26. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad ei gwneud yn ofynnol bod arian a ddyrennir i awdurdodau at ddibenion cyfalaf yn cael ei ddefnyddio'n llwyr fel gwariant cyfalaf ym maes addysg ac y dylai ystyried darparu adnoddau ychwanegol os yw'n dal i ymrwymo i'w nod o wneud pob ysgol yn addas i'w phwrpas erbyn 2010.

27. Rydym yn argymell y dylai'r Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau a'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ddilyn y cynnydd i ymateb i'n hargymhellion, yn y lle cyntaf, o fewn 6 mis i ymateb cychwynnol y Llywodraeth.

# Atodiadau

**Atodiad A**

## Rhestr o'r dystiolaeth a gasglwyd yn gyhoeddus

| Dyddiad | Enw'r sefydliad | Cyfeirnod y papur |
|---|---|---|
| 28 Medi 2005 | Gwasanaeth y Pwyllgorau | SFC2-01-05(p.1) |
| | Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth | SFC2-01-05(p.2) |
| | Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth | SFC2-01-05(p.3) |
| 2 Tachwedd 2005 | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) | SFC2-02-05(p.1) |
| | Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT) | SFC2-02-05(p.2) |
| | Cymdeithas y Prifathrawon Uwchradd (SHA) | SFC2-02-05(p.3) |
| | Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) | Tystiolaeth lafar |
| | Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT) | Tystiolaeth lafar |
| 16 Tachwedd 2005 | Yr Athro David Reynolds, Prifysgol Caerwysg | SFC2-03-05(p.1) |
| | Cymdeithas Genedlaethol Prifathrawon Cymru (NAHT Cymru) | SFC2-03-05(p.2) |
| | Cymdeithas Broffesiynol yr Athrawon (PAT) | SFC2-03-05(p.3) |
| 12 Ionawr 2006 | Llywodraethwyr Cymru | SFC2-01-06(p.1) |
| | Cymdeithas Ysgolion Uwchradd Cymru | SFC2-02-06(p.2) |
| 25 Ionawr 2006 | Y Gyfarwyddiaeth Ystadegol, Llywodraeth Cynulliad Cymru | Tystiolaeth lafar |
| | Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru | Tystiolaeth lafar |
| 9 Chwefror 2006 | Estyn | Tystiolaeth lafar |
| | ELWa | SFC2-03-06(p.1) |
| 2 Mawrth 2006 | Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr (ATL) | SFC2-04-06(p.1) |
| | Cymdeithas Ysgolion | SFC2-04-06(p.2) |

| | | |
|---|---|---|
| | Cynradd Cymru (WPSA) | |
| | Rhieni Dros Addysg Gymraeg (RhAG) | SFC2-04-06(p.3) |
| | Estyn | SFC2-04-06(p.4) Papur i'w nodi |
| 15 Mawrth 2006 | Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru | SFC2-05-06(p.1) |
| 15 Mawrth 2006 | Cymdeithas Prif Weithredwyr yr Awdurdodau Lleol (SOLACE) | Tystiolaeth lafar |
| 30 Mawrth 2006 | Swyddfa Archwilio Cymru | SFC2-06-06(p.1) |
| | Jane Davidson, y Gweinidog, Llywodraeth Cynulliad Cymru | SFC2-06-06(p.2) |
| | Yr Athro Hugh Coombs, Prifysgol Morgannwg | SFC2-06-06(p.3) |
| | Y Gyfarwyddiaeth Ystadegol, Llywodraeth Cynulliad Cymru | SFC2-06-06(p.4) Papur i'w nodi |
| 10 Mai 2006 | Yr Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cynulliad Cymru | SFC2-07-06(p.1) |

**Y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

# Dadansoddiad Ystadegol o Gyllidebau'r Awdurdodau Lleol ar gyfer Addysg yng Nghymru

## Diben

1. Rhoi dadansoddiad o'r cyllidebau i addysg a bennwyd gan awdurdodau addysg lleol ar gyfer 2004-05, gan gynnwys gwybodaeth gymharol ar gyfer Lloegr.
2. Gwnaethpwyd cymariaethau yn y gorffennol ar sail gwariant wedi'i gyllidebu gan yr awdurdodau lleol ar gyfer ysgolion a gwasanaethau ysgolion yn hytrach nag ar gyfer cyllidebau addysg cyffredinol. Serch hynny, nid yw'r gwaith o gasglu gwybodaeth ar ariannu ysgolion yng Nghymru a Lloegr yn cael ei gwblhau ar yr un sail felly nid yw'n bosibl cymharu'r cyllidebau ar gyfer ysgolion bellach.
3. Felly, mae'r papur hwn yn cymharu'r cyllidebau ar sail yr holl wariant refeniw ar addysg. Mae hyn yn cynnwys gwariant ar addysg 'nad yw'n rhan o'r ysgol' megis addysg i oedolion a phobl ifanc. O ganlyniad felly nid yw'r ffigurau ar gyfer awdurdodau Cymru yr un peth â'r rhai a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad a amgaewyd gydag adroddiad y Gweinidog ar gyfer 07 Gorffennaf 2005, oherwydd yr oedd y ffigurau hynny'n ystyried gwariant ar ysgolion a gwasanaethau ysgolion yn unig.

## Crynodeb

4. Y pwyntiau allweddol i'w nodi o'r dadansoddiad hwn yw :

   - Yng Nghymru ar gyfartaledd, gwariwyd £4,141 y disgybl ar addysg llywodraeth leol yn 2004-05. Dyma gynnydd o 4.7% ers y flwyddyn cynt, sydd ddwywaith yn fwy na'r gyfradd chwyddiant (tabl 3). Ar waelod ystod y gwariant yr oedd £3,806 ym Mro Morgannwg hyd at £4,785 yng Ngheredigion (tabl 1 a siart 1). Ar y cyfan, yn Lloegr gwariwyd £4,298 y disgybl (£4,163 ac eithrio Llundain). Dyma gynnydd o 4.1%, sef 0.6% yn llai nag yng Nghymru (tabl 3);

   - Dengys cymariaethau trawsffiniol bod y gwariant fesul disgybl yng Nghanolbarth a De-Ddwyrain Cymru yn uwch na'u cymdogion ar y ffin yn Lloegr (tabl 4);

   - Yn ystod 2004-05 gwelwyd cwymp o 0.3% yng Nghymru a 0.2% yn Lloegr yn nifer y disgyblion (tabl 3).

## Cyflwyniad

5. Mae'r papur hwn yn dadansoddi'r adnoddau y mae'r awdurdodau lleol wedi'u cyllidebu ar gyfer addysg yn 2004-05. Mae'r papur hwn yn gwneud cymariaethau rhwng awdurdodau addysg lleol a rhwng cyfartaledd Cymru a chyfartaledd cyffredinol a rhanbarthol Lloegr. Rhoddir ystyriaeth fer hefyd i'r duedd hanesyddol.

**Ffynonellau gwybodaeth**

6. Y prif ffynonellau ar gyfer casglu gwybodaeth ariannol yw ffurflenni Cyllideb y Cyfrif Refeniw (RAS52) a'r Ffurflenni Alldro Refeniw (RO1).
7. Caiff nifer y disgyblion eu cymryd o gyfrifiad blynyddol yr ysgolion a gynhelir ym mis Ionawr bob blwyddyn. Ar y cyfan, defnyddir nifer ar gyfartaledd wedi'u pwysoli er mwyn pennu amcangyfrif o nifer y disgyblion ar gyfer y flwyddyn ariannol, ac eithrio 2004-05 lle defnyddiwyd y nifer a nodwyd yng nghyfrifiad Ionawr 2004 heb eu haddasu.

**Disgrifiad o'r dadansoddiad o gyllidebau 2004-05**

8. Mae dwy ran i'r dadansoddiad o gyllidebau 2004-05:
    - Awdurdodau addysg unigol yng Nghymru (tabl 1 a siart 1).
    - Cyfartaledd Cymru a chyfartaledd rhanbarthau Lloegr (tabl 2 a siart 2).
9. Mae'r rhanbarthau o Loegr a ddefnyddiwyd ar gyfer cymharu yn is-ranbarthau o'r 9 rhanbarth arferol. At ddibenion y gwaith hwn, rhannwyd Llundain i ddangos canol dinas Llundain a chyrion Llundain ar wahân. Mae'r rhanbarthau eraill wedi'u rhannu'n ardaloedd metropolitanaidd ac ardaloedd nad ydynt yn fetropolitanaidd. Felly, mae rhanbarth y gogledd orllewin wedi'i rannu'n ardal fetropolitanaidd - Lerpwl a Manceinion - a'r ardal nad yw'n fetropolitanaidd - Cumbria, Swydd Gaerhirfryn, Swydd Gaer etc.
10. Mae tablau 1 a 2 yn dangos y wybodaeth ganlynol ar gyfer y gwahanol ardaloedd:
    - Cyfanswm y gwariant ar addysg. Mae'r wybodaeth ar "sail gyfredol", sef ei bod yn cynnwys gwariant a ariannwyd gan grantiau penodol y llywodraeth a chan grantiau oddi wrth ELWa yng Nghymru a'r LSC yn Lloegr. Maent yn cynnwys gwariant ar ddigolledu rhwng yr awdurdodau ar addysg, ysgolion meithrin, grantiau gorfodol i fyfyrwyr, ac addysg i oedolion a phobl ifanc.
    - Y gwariant ar addysg fesul disgybl. Nid ydym yn mesur gwariant yr 'ysgol' fesul disgybl oherwydd bod gwariant ar addysg i oedolion a phobl ifanc wedi'i gynnwys ond yr unig ffordd o wneud cymhariaeth â Lloegr yw defnyddio'r gwariant ar addysg yn ei gyfanrwydd. Felly yr unig reswm dros gyfrifo'r gwariant fesul disgybl yw er mwyn gwneud cymhariaeth â Lloegr. Mae'r ffigur a ddefnyddiwyd ar gyfer nifer y disgyblion yn cynnwys ysgolion meithrin, cynradd, uwchradd, arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion.
11. Mae siartiau 1 a 2 yn crynhoi'r gyllideb gyffredinol fesul disgybl yng Nghymru ac ar gyfer Cymru a rhanbarthau Lloegr. Mae'r llinell drwm ar siart 1 yn dangos cyfartaledd Cymru ac ar siart 2 yn dangos cyfartaledd Cymru a

Lloegr.

**Y duedd hanesyddol yn y gwariant ar wasanaethau addysg**

12. Mae tabl 3 yn dangos y duedd o ran gwariant ar addysg, nifer y disgyblion a'r gwariant fesul disgybl o 1999-2000 i 2004-05. Mae'r tabl hefyd yn dangos y gwariant ar gyfartaledd fesul disgybl ar y sylfaen o bris cyson (2004-05). Mae'r ffigurau wedi'u seilio ar wariant alldro terfynol ac eithrio 2004-05 lle defnyddiwyd y cyllidebau. Yn ystod tair blynedd gyntaf y cyfnod hwn yr oedd y gwariant fesul disgybl yng Nghymru yn uwch nag yn Lloegr (ac eithrio Llundain). Yn 2002/03 yr oedd gwariant yn Lloegr (ac eithrio Llundain) wedi mynd y tu hwnt i Gymru, ond dros y ddwy flynedd nesaf mae'r bwlch wedi lleihau'n sylweddol.

**Y gymhariaeth rhwng yr awdurdodau ar ffin Cymru-Lloegr**

13. Mae tabl 4 yn nodi'r gymhariaeth o ran gwariant rhwng yr awdurdodau ar hyd y ffin.

**Mwy o wybodaeth**

14. Ym mis Gorffennaf bob blwyddyn darperir dadansoddiad ar gyfer y pwyllgor o'r cyllidebau ysgol a bennwyd gan awdurdodau lleol Cymru ar gyfer y flwyddyn gyfredol. Caiff y dadansoddiad o'r cyllidebau ar gyfer 2005-06 ei ddarparu ar gyfer y pwyllgor cyn toriad y Cynulliad yn yr haf.

15. Mae'r wybodaeth yn y papur hwn yn rhoi crynodeb o'r gwariant ar addysg. Mae dadansoddiadau mwy manwl ar gael trwy wneud cais.

16. Dyma'r ffynonellau safonol sydd wedi'u cyhoeddi:

- Ystadegau Ariannol Llywodraeth Leol Cymru, 2004
- Ysgolion yng Nghymru: Ystadegau Cyffredinol 2004
- Ystadegau Ariannol Llywodraeth Leol Lloegr, 2004
- Ystadegau Addysg, Ysgolion yn Lloegr 2004

17. Mae cyhoeddiadau ystadegol diweddar y Cynulliad Cenedlaethol ar gael ar wefan yn Cynulliad. Ewch i:

    http://www.cymru.gov.uk/keypubstatisticsforwales/index.htm

18. Y Gyfarwyddiaeth Ystadegau sy'n cadw'r holl wybodaeth a gesglir yn ganolog. I gael manylion am ba wybodaeth sydd ar gael, cysylltwch â

**Atodiad B**

Ystadegau Ariannol Llywodraeth Leol
SD3
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn (029) 2082 3963
Ffacs (029) 2082 5350
E-bost – stats.finance@wales.gov.uk

**Dadansoddiad o gyllidebau addysg awdurdodau lleol, 2004-05**

**Siartau a thablau**

Tabl 1 - Cyllidebau addysg, Cymru, 2004-05
Tabl 2 - Cyllidebau addysg, Cymru a rhanbarthau Lloegr, 2004-05
Tabl 3 - Gwariant ar addysg, Cymru a Lloegr, 1999-00 i 2004-05
Tabl 4 - Addysg fesul disgybl, awdurdodau ar ffin Cymru-Lloegr, 2004-05
Siart 1 - Y gyllideb addysg fesul disgybl, Cymru, 2004-05
Siart 2 - Y gyllideb addysg fesul disgybl, Cymru a rhanbarthau Lloegr, 2004-05
Siart 3 - Y gwariant ar addysg fesul disgybl, Cymru a Lloegr 1999-00 i 2004-05 (symiau arian parod)
Siart 4 - Y gyllideb addysg fesul disgybl, Cymru a Lloegr, 1999-00 i 2004-05 (symiau prisau cyson 2004-05)

**Dadansoddiad o gyllidebau addysg awdurdodau lleol, 2004-05**

**Tabl 1 - Cyllidebau addysg, Cymru, 2004-05 (a)**

| | Addysg £ mil | Addysg £ y disgybl (b) | Gwahaniaeth ar gyfartaledd Cymru |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 46,804 | 4,498 | 8.6% |
| Gwynedd | 77,899 | 4,326 | 4.5% |
| Conwy | 72,055 | 4,194 | 1.3% |
| Sir Ddinbych | 62,574 | 3,824 | -7.7% |
| Sir Fflint | 95,154 | 3,828 | -7.5% |
| Wrecsam | 76,259 | 4,099 | -1.0% |
| Powys | 90,592 | 4,367 | 5.5% |
| Ceredigion | 50,460 | 4,785 | 15.6% |
| Sir Benfro | 82,160 | 4,269 | 3.1% |
| Sir Gaerfyrddin | 123,126 | 4,425 | 6.9% |
| Abertawe | 148,479 | 4,206 | 1.6% |
| Castell nedd Port Talbot | 95,181 | 4,354 | 5.2% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 89,263 | 3,931 | -5.1% |
| Bro Morgannwg | 82,508 | 3,806 | -8.1% |
| Caerdydd | 207,109 | 4,145 | 0.1% |
| Rhondda Cynon Taf | 173,458 | 4,078 | -1.5% |
| Merthyr Tudful | 42,374 | 4,112 | -0.7% |
| Caerffli | 123,226 | 4,049 | -2.2% |
| Blaenau Gwent | 50,570 | 4,437 | 7.2% |
| Tor-faen | 65,203 | 3,863 | -6.7% |
| Sir Fynwy | 51,998 | 4,016 | -3.0% |
| Casnewydd | 98,620 | 4,035 | -2.6% |
| | | | |
| Cymru | 2,005,070 | 4,141 | 0.0% |
| | | | |
| Uchafswm | 207,109 | 4,785 | 15.6% |
| Isafswm | 42,374 | 3,806 | -8.1% |

(a) Mae'r ffigurau gwariant ar addysg yn y tabl hwn ar 'sail bresennol', sef eu bod yn cynnwys gwariant a ariannwyd gan grantiau penodol y llywodraeth gan gynnwys grant ELWa ar gyfer darpariaeth ôl-16. Mae'r ffigurau yn cynnwys gwariant ar wasanaethau ysgol, costau canolog yr AALl, grantiau gorfodol i fyfyrwyr, digolledu rhwng yr awdurdodau lleol ar addysg, ysgolion meithrin ac addysg i oedolion a phobl ifanc.

(b) Mae'r niferoedd a ddefnyddir ar gyfer disgyblion yn y tabl hwn yn cynnwys disgyblion cyfatebol mewn ysgolion meithrin, cynradd, uwchradd, arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion.

**Dadansoddiad o gyllidebau addysg awdurdodau lleol, 2004-05**

**Tabl 2 - Cyllidebau addysg, Cymru a rhanbarthau Lloegr, 2004-05 (a)**

| | Addysg £ mil | Addysg £ y disgybl (b) | Gwahaniaeth ar gyfartaledd Cymru |
|---|---|---|---|
| Cymru | 2,005,070 | 4,141 | 0.0% |
| **Cyfartaledd y rhanbarthau yn Lloegr** | | | |
| Dwyrain | 3,386,268 | 4,053 | -2.1% |
| Dwyrain Canolbarth Lloegr | 2,706,648 | 4,081 | -1.4% |
| Canol Llundain | 2,168,571 | 6,059 | 46.3% |
| Cyrion Llundain | 3,189,685 | 4,655 | 12.4% |
| Gogledd Ddwyrain (met) | 695,775 | 4,181 | 1.0% |
| Gogledd Ddwyrain (nad yw'n fet) | 962,146 | 4,171 | 0.7% |
| Gogledd Orllewin (met) | 2,776,158 | 4,360 | 5.3% |
| Gogledd Orllewin (nad yw'n fet) | 1,906,809 | 4,199 | 1.4% |
| De Ddwyrain | 4,842,306 | 4,185 | 1.1% |
| De Orllewin | 2,914,543 | 4,049 | -2.2% |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr (met) | 1,988,116 | 4,448 | 7.4% |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr (nad yw'n fe | 1,639,893 | 3,963 | -4.3% |
| Swydd Efrog (met) | 2,300,937 | 4,224 | 2.0% |
| Swydd Efrog (nad yw'n fet) | 1,031,715 | 4,089 | -1.3% |
| **Cyfartaledd y mathau o awdurdodau yn Lloegr** | | | |
| Bwrdeistrefi Llundain | 5,358,256 | 5,136 | 24.0% |
| Yr Ardaloedd Metropolitanaidd | 7,760,986 | 4,324 | 4.4% |
| Yr Awdurdodau Unedol | 5,388,411 | 4,270 | 3.1% |
| Siroedd Canolbarth Lloegr | 13,999,366 | 4,041 | -2.4% |
| Ynysoedd Sili | 2,551 | 9,681 | 133.8% |
| Awdurdodau Canolbarth Lloegr | 14,001,917 | 4,041 | -2.4% |
| Lloegr | 32,509,570 | 4,298 | 3.8% |
| Lloegr ac eithrio Llundain | 27,151,314 | 4,163 | 0.5% |
| Cymru a Lloegr | 34,514,640 | 4,288 | 3.6% |

(a) Mae'r ffigurau gwariant ar addysg yn y tabl hwn ar 'sail bresennol',sef eu bod yn cynnwys gwariant a ariannwyd gan grantiau penodol y llywodraeth gan gynnwys grant ELWa ar gyfer darpariaeth ôl-16. Mae'r ffigurau yn cynnwys gwariant ar wasanaethau ysgol, costau canolog yr AALl, grantiau gorfodol i fyfyrwyr, digolledu rhwng yr awdurdodau lleol ar addysg, ysgolion meithrin ac addysg i oedolion a phobl ifanc.

(b) Mae'r niferoedd a ddefnyddir ar gyfer disgyblion yn y tabl hwn yn cynnwys disgyblion cyfatebol mewn ysgolion meithrin, cynradd, uwchradd, arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion.

**Dadansoddiad o gyllidebau addysg awdurdodau lleol, 2004-05**

**Tabl 3 - Gwariant ar addysg, Cymru a Lloegr, 1999-00 i 2004-05 (a)**

| | 1999-00 | 2000-01 | 2001-02 | 2002-03 | 2003-04 | 2004-05 (b) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y gwariant** | | | | | | |
| Cymru (£m) | 1,407 | 1,517 | 1,651 | 1,739 | 1,921 | 2,005 |
| % cynnydd | | 7.8% | 8.8% | 5.3% | 10.5% | 4.4% |
| Lloegr ac eithrio Llundain (£m) | 18,563 | 19,884 | 21,852 | 23,737 | 26,099 | 27,151 |
| % cynnydd | | 7.1% | 9.9% | 8.6% | 10.0% | 4.0% |
| Lloegr(£m) | 22,164 | 23,747 | 26,121 | 28,405 | 31,293 | 32,510 |
| % cynnydd | | 7.1% | 10.0% | 8.7% | 10.2% | 3.9% |
| Cymru fel % o Loegr | 6.3% | 6.4% | 6.3% | 6.1% | 6.1% | 6.2% |
| **Nifer y disgyblion cyfatebol llawn amser (c)** | | | | | | |
| Cymru ('000) | 491 | 491 | 490 | 488 | 486 | 484 |
| % cynnydd | | 0.0% | -0.2% | -0.3% | -0.5% | -0.3% |
| Lloegr ac eithrio Llundain ('000) | 6,550 | 6,568 | 6,569 | 6,561 | 6,536 | 6,521 |
| % cynnydd | | 0.3% | 0.0% | -0.1% | -0.4% | -0.2% |
| Lloegr ('000) | 7,576 | 7,604 | 7,610 | 7,604 | 7,580 | 7,565 |
| % cynnydd | | 0.4% | 0.1% | -0.1% | -0.3% | -0.2% |
| **Gwariant y disgybl** | | | | | | |
| Cymru (£ y disgybl) | 2,868 | 3,092 | 3,372 | 3,562 | 3,955 | 4,141 |
| % cynnydd | | 7.8% | 9.1% | 5.6% | 11.0% | 4.7% |
| Lloegr ac eithrio Llundain (£ y disgybl) | 2,834 | 3,027 | 3,327 | 3,618 | 3,993 | 4,163 |
| % cynnydd | | 6.8% | 9.9% | 8.8% | 10.4% | 4.3% |
| Lloegr (£ y disgybl) | 2,926 | 3,123 | 3,432 | 3,735 | 4,128 | 4,298 |
| % cynnydd | | 6.7% | 9.9% | 8.8% | 10.5% | 4.1% |
| **Gwariant ar gyfartaledd y disgybl ar brisiau cyson 2004-05** | | | | | | |
| Cymru (£ y disgybl) | 3,229 | 3,441 | 3,660 | 3,738 | 4,034 | 4,141 |
| Lloegr ac eithrio Llundain (£ y disgybl) | 3,191 | 3,369 | 3,611 | 3,797 | 4,072 | 4,163 |
| Lloegr (£ y disgybl) | 3,294 | 3,476 | 3,725 | 3,920 | 4,210 | 4,298 |
| **Y gwahaniaeth - Lloegr yn fwy na Chymru ar brisiau cyson 2004-05** | | | | | | |
| Lloegr ac eithrio Llundain (£ y disgybl) | -38 | -72 | -49 | 59 | 38 | 23 |
| (% y gwahaniaeth) | -1.2% | -2.1% | -1.3% | 1.6% | 0.9% | 0.5% |
| Lloegr (£ y disgybl) | 65 | 35 | 66 | 182 | 176 | 157 |
| (% y gwahanaieth) | 2.0% | 1.0% | 1.8% | 4.9% | 4.4% | 3.8% |

(a) Mae'r ffigurau gwariant ar addysg yn y tabl hwn ar 'sail bresennol',sef eu bod yn cynnwys gwariant a ariannwyd gan grantiau penodol y llywodraeth gan gynnwys grant ELWa ar gyfer darpariaeth ôl-16. Mae'r ffigurau yn cynnwys gwariant ar wasanaethau ysgol, costau canolog yr AALl, grantiau gorfodol i fyfyrwyr, digolledu rhwng yr awdurdodau lleol ar addysg, ysgolion meithrin ac addysg i oedolion a phobl ifanc

(b) Mae'r ffigurau gwariant wedi'u seilio ar ddata alldro, ac eithrio 2004-05 sydd yn y gyllideb.

(c) Mae'r niferoedd a ddefnyddir ar gyfer disgyblion yn y tabl hwn yn cynnwys disgyblion cyfatebol mewn ysgolion meithrin, cynradd, uwchradd, arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion.


**Dadansoddiad o gyllidebau addysg awdurdodau lleol, 2004-05**


**Tabl 4 - Addysg fesul disgybl, awdurdodau ar ffin Cymru-Lloegr, 2004-05 (a)**

| | Addysg £ y disgybl |
|---|---|
| **Gogledd** | |
| Swydd Gaer (Sir Canolbarth (SC)) | 3,986 |
| Cilgwr Ardal Metropolitanaidd | 4,352 |
| Conwy | 4,194 |
| Sir Ddinbych | 3,824 |
| Sir Fflint | 3,828 |
| Wrecsam | 4,099 |
| **Canol** | |
| Swydd Henffordd Awdurdod Unedol | 3,863 |
| Swydd Amwythig SC | 3,883 |
| Telford a Dinlle Gwrygon AU | 4,103 |
| Swydd Gaerwrangon SC | 3,828 |
| Powys | 4,367 |
| **De** | |
| Swydd Gaerloyw SC | 3,926 |
| De Caerloyw AU | 3,792 |
| Sir Fynwy | 4,016 |
| Casnewydd | 4,035 |
| Caerdydd | 4,145 |
| **Cyfartaledd** | |
| Cymru | 4,141 |
| **Cyfartaleddau** | |
| Ardal Metropolitanaidd | 4,324 |
| Sir Canolbarth Lloegr | 4,041 |
| Awdurdod Unedol | 4,270 |
| Lloegr ac eithrio Llundain | 4,163 |
| Lloegr | 4,298 |

(a) Mae'r ffigurau gwariant ar addysg yn y tabl hwn ar 'sail bresennol,"sef eu bod yn cynnwys gwariant a ariannwyd gan grantiau penodol y llywodraeth gan gynnwys grant ELWa ar gyfer darpariaeth ôl-16. Mae'r ffigurau yn cynnwys gwariant ar wasanaethau ysgol, costau canolog yr AALl, grantiau gorfodol i fyfyrwyr, digolledu rhwng yr awdurdodau lleol ar addysg, ysgolion meithrin ac addysg i oedolion a phobl ifanc. Mae'r niferoedd a ddefnyddir ar gyfer disgyblion yn y tabl hwn yn cynnwys disgyblion cyfatebol mewn ysgolion meithrin, cynradd, uwchradd, arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion.

**Dadansoddiad o gyllidebau addysg awdurdodau lleol, 2004-05**






(a) Mae'r ffigurau gwariant ar addysg yn y tabl hwn ar 'sail bresennol',sef eu bod yn cynnwys gwariant a ariannwyd gan grantiau penodol y llywodraeth gan gynnwys grant ELWa / LSC (Lloegr) ar gyfer darpariaeth ô 16. Mae'r ffigurau yn cynnwys gwariant ar wasanaethau ysgol, costau canolog yr AALl, grantiau gorfodol i fyfyrwyr, digolledu rhwng yr awdurdodau lleol ar addysg, ysgolion meithrin ac addysg i oedolion a phobl ifanc. Seiliwyd y duedd hanesyddol ar ddata alldro ac eithrio 2004-05 sydd yn y gyllideb.

**Dadansoddiad o gyllidebau addysg awdurdodau lleol, 2004-05**

**Siart 1 -Y gwariant ar addysg fesul disgybl, Cymru, 2004-05 (a)**




**Siart 2 - Y gwariant ar addysg fesul disgybl, Cymru a rhanbarthau Lloegr 2004-05(a)**




(a) Mae'r ffigurau gwariant ar addysg yn y tabl hwn ar 'sail bresennol',sef eu bod yn cynnwys gwariant a ariannwyd gan grantiau penodol y llywodraeth gan gynnwys grant ELWa / LSC (Lloegr) ar gyfer darpariaeth ôl-16. Mae'r ffigurau yn cynnwys gwariant ar wasanaethau ysgol, costau canolog yr AALl, grantiau gorfodol i fyfyrwyr, digolledu rhwng yr awdurdodau lleol ar addysg, ysgolion meithrin ac addysg i oedolion a phobl ifanc.

**Atodiadau C-F**

**Nid oes fersiwn Cymraeg ar gael.**

**Atodiad G**

## Prif ffynonellau cyllid awdurdodau addysg lleol ac ysgolion Cymru

- Grant Cynnal Refeniw

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu tua 80% o'r cyllid i awdurdodau lleol Cymru ar ffurf Grant Cynnal Refeniw ac ardrethi annomestig cenedlaethol a ail-ddosberthir. Caiff yr 20% sy'n weddill ei godi'n lleol drwy'r dreth gyngor a bennir gan bob awdurdod fel rhan o'r broses flynyddol o lunio'r gyllideb. Dosberthir y Grant Cynnal Refeniw ar sail fformiwla sy'n seiliedig ar angen. Caiff y fformiwla ei chynnal a'i hadolygu gan yr Is-grŵp Dosbarthu, sef gweithgor ar y cyd rhwng y Cynulliad a llywodraeth leol.

- Cyllid Grant

Gall awdurdodau lleol hefyd gael cyllid ychwanegol drwy raglen grantiau'r Cynulliad. Mae'r Cynulliad wedi gwneud nifer o adroddiadau grant arbennig a grantiau penodol ym maes addysg.

  - Adroddiadau Grant Arbennig – yn absenoldeb unrhyw bŵer arall i dalu grantiau, gellir defnyddio darpariaethau grant arbennig dan Adran 88B *Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988* i ddosbarthu arian i un neu ragor o awdurdodau lleol. Mae angen cymeradwyaeth gan y Cynulliad i wneud y grant, ac wrth geisio hwn, dylai'r Gweinidog gyflwyno Adroddiad Grant Arbennig i'r Cynulliad sy'n amlinellu diben y grant, y meini prawf ar gyfer ei ddyrannu a phwy fydd yn ei dderbyn. Mae'r pwerau i wneud grantiau arbennig yn eang a hyblyg ond ni ellir eu defnyddio am amser amhenodol. Ymhlith yr adroddiadau grant arbennig a wnaed y mae cyllid i leihau maint dosbarthiadau Cyfnod Allweddol 2. Ceir rhestr o'r holl adroddiadau grant arbennig a wnaed ym maes addysg ers 1999 yn Atodiad 2.

  - Grantiau penodol – mae Adran 14 Deddf Addysg 2002 yn darparu pŵer cyffredinol i'r Cynulliad Cenedlaethol roi cymorth ariannol at ddibenion sy'n ymwneud ag addysg a gofal plant. Mae Adran 14 wedi disodli'r defnydd o adran 484 Deddf Addysg 1996. O dan yr adran honno, roedd y Cynulliad yn gallu gwneud rheoliadau ar gyfer grantiau cynnal addysg a hyfforddiant. Ymhlith y grantiau penodol a wnaed yn ddiweddar y mae grant ar gyfer gwisg ysgol, y grant cyrhaeddiad lleiafrifoedd ethnig, a Rhagori, sef rhaglen newydd Llywodraeth y Cynulliad sy'n ceisio gwella perfformiad disgyblion difreintiedig.

**Atodiad H**

## FFACTORAU NEU FEINI PRAWF YCHWANEGOL Y CANIATEIR EU CYMRYD I YSTYRIAETH MEWN FFORMIWLA AWDURDOD ADDYSG LLEOL*

Oni nodir yn wahanol caniateir i'r ffactorau neu'r meini prawf a nodir isod yn yr Atodlen hon gael eu cymryd i ystyriaeth gan awdurdod addysg lleol yn ei fformwla ar sail y gost wirioneddol neu amcangyfrifedig.

**1.** Anghenion addysgol arbennig disgyblion a benderfynwyd mewn ffordd y mae'r awdurdod yn credu ei bod yn briodol fel modd i asesu anghenion o'r fath.

**2.** Disgyblion nad yw'r Gymraeg na'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt.

**3.** Trosiant disgyblion ac eithrio fel rhan o'r broses derbyniadau cyffredinol mewn ysgol.

**4.** I ba raddau y mae'r awdurdod yn talu costau trefniadau derbyn mewn ysgol ac eithrio o gyllideb ddirprwyedig yr ysgol.

**5.** Maint a chyflwr adeiladau a thiroedd ysgol o'u cymharu â rhai ysgolion eraill a gynhelir gan yr awdurdod: rhaid i'r cyllid gydymffurfio â graddfeydd a gyhoeddir gan yr awdurdod sy'n adlewyrchu (i'r graddau y mae hynny'n briodol) ddyletswyddau statudol cyrff llywodraethu o ran mangreoedd ysgol a'u cymhwyster i gael grant gan y Cynulliad Cenedlaethol neu unrhyw adran o'r llywodraeth.

**6.** Ysgol a chanddi safle wedi'i rannu: rhaid i'r cyllid gydymffurfio â meini prawf a gyhoeddir gan yr awdurdod.

**7.** Cyfleusterau, ar gyfer addysgu disgyblion, a geir mewn rhai ysgolion yn unig.

**8.** Ardrethi sy'n daladwy am fangre pob ysgol (gan gynnwys y gost wirioneddol neu amcangyfrifedig).

**9.** Y ffioedd am ddŵr a charthffosiaeth (gan gynnwys y gost wirioneddol neu amcangyfrifedig).

**10.** Defnydd ysgolion ar ynni.

**11.** Y rhent sy'n daladwy am fangre ysgol neu daliadau am ddefnydd ysgol ar gyfleusterau nad ydynt wedi'u meddiannu gan yr ysgol honno'n unig (gan gynnwys y gost wirioneddol neu amcangyfrifedig).

**12.** Glanhau mangre ysgol.

---

* *Ffynhonell: Atodlen i'r Rheoliadau Cyfrannau Cyllideb Ysgolion (Cymru) 2004*

**13.** Cludiant yn ôl ac ymlaen i weithgareddau y tu allan i fangre ysgol sy'n ffurfio rhan o gwricwlwm yr ysgol (gan gynnwys y gost wirioneddol neu amcangyfrifedig).

**14.** Llogi cyfreusterau y tu allan i fangre ysgol (gan gynnwys y gost wirioneddol neu amcangyfrifedig).

**15.** Mewn achosion lle mae swm ar gyfer yswiriant i'w gynnwys yng nghyfran cyllideb yr ysgol -

(a) pan fo'r awdurdod yn yswirio, y rhan briodol o wariant cynlluniedig yr awdurdod ar yswiriant; neu,

(b) pan nad yw'r awdurdod yn yswirio, y rhan briodol o'r swm y byddai'r awdurdod wedi'i wario pe bai wedi yswirio, i'w benderfynu ar sail a benderfynir gan yr awdurdod y mae'n rhaid iddo roi sylw i nifer y disgyblion cofrestredig yn yr ysgol.

**16.** Taliadau mewn perthynas â thrafodiad cyllid preifat fel y diffinnir "*private finance transaction*" yn rheoliad 16 o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) 1997 (gan gynnwys y gost wirioneddol neu amcangyfrifedig).

**17.** Symiau sy'n daladwy i ysgol sydd, yn sgil cau un neu ragor o ysgolion a gynhelir, naill ai'n ysgol sy'n cael ei sefydlu neu, yn unol â Phennod II o Ran II o Ddeddf 1998, yn destun addasiadau rhagnodedig, i adlewyrchu i ba raddau y mae ysgol sydd wedi'i chau wedi gwario mwy na'i chyfran o'r gyllideb (o fewn ystyr "*budget share*" yn Neddf 1996 neu 1998) neu nad yw wedi gwario'r cyfan ohoni mewn unrhyw flwyddyn ariannol. Rhaid i unrhyw ffactor neu feini prawf o'r fath ddarparu bod rhaid i unrhyw swm a ddidynnir beidio â bod yn fwy na'r swm y mae'r ysgol yn ei gael yn ystod y flwyddyn ariannol fel rhan o'i chyfran o'r gyllideb am ei bod yn ysgol newydd.

**18.** A yw'r ysgol i gael ei chau yn ystod y flwyddyn ariannol o dan sylw.

**19.** Llaeth ysgol, prydau bwyd a lluniaeth arall: ni chaiff yr awdurdod drin unrhyw elfen o'r gwariant hwn yn wariant â gwerth negyddol.

**20.** Cyflogau mewn ysgol (gan gynnwys y gost wirioneddol neu amcangyfrifedig): rhaid i'r cyllid gydymffurfio â graddfa a gyhoeddir gan yr awdurdod.

**21.** Diogelu cyflogau yn unol â gorchmynion sy'n cael eu gwneud o bryd i'w gilydd o dan adran 122 o Ddeddf 2002 neu ddiogelu cyflogau eraill.

**22.** Lwfansau blaenoriaeth gymdeithasol yn unol â Dogfen Tâl ac Amodau Athrawon Ysgol sy'n cael effaith yn unol â gorchymyn a wnaed o dan adran 122 o Ddeddf 2002 (gan gynnwys y gost wirioneddol neu amcangyfrifedig).

**23.** Yr angen i daliadau sengl gael eu dyrannu i ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd neu ysgolion arbennig, neu unrhyw gyfuniad o ysgolion o'r fath, ni

waeth beth fo'u maint.

**24.** Yr angen i daliadau gael eu dyrannu i ysgolion y mae eu maint wedi'i bennu gan yr awdurdod ac sy'n bodloni amodau eraill a bennwyd ganddo.

**25.** Ysgolion y câi eu cyfrannau cyllideb eu gostwng fel arall flwyddyn ar ôl blwyddyn â mwy na phump y cant: rhaid i'r cyllid gydymffurfio â graddfa a gyhoeddir gan yr awdurdod.

**26.** Contractau y mae corff llywodraethu ysgol yn rhwym iddynt yn rhinwedd darpariaeth yng nghynllun yr awdurdod (gan gynnwys y gost wirioneddol neu amcangyfrifedig).

**27.** Costau gweinyddu cyflogres: rhaid i'r cyllid fod wedi'i seilio ar nifer y staff yn yr ysgol, oni ddefnyddir ffactorau a ganiateir mewn mannau eraill yn y Rheoliadau hyn.

**28.** Unrhyw ffactorau neu feini prawf eraill nad ydynt fel arall yn dod o dan yr Atodlen hon, ar yr amod nad yw'r cyfanswm a ddyrannwyd yn unol â fformwla'r awdurdod, o ystyried ffactorau neu feini prawf o'r fath, yn fwy nag un y cant o gyllideb ysgolion yr awdurdod.

**29.** Effaith trethi ar ysgolion.

**30.** Mynychder disgyblion o leiafrifoedd ethnig y mae eu lefelau cyrhaeddiad academaidd mewn perthynas â disgyblion eraill yn ardal yr awdurdod yn is na'r cyfartaledd, a hynny i'w benderfynu ar sail a benderfynir gan yr awdurdod.

**31.** Mynychder dosbarthiadau a lleoedd meithrin sy'n cael eu cydnabod gan yr awdurdod fel rhai sydd wedi'u cadw ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig.

**32.** Mynychder Athrawon Newydd Gymhwyso.

**33.** Datblygiad tai neu symudiadau lluoedd arfog sy'n arwain at gynnydd neu ostyngiad o 20% o leiaf yn y niferoedd ar y gofrestr mewn ysgol yn y flwyddyn ariannol o dan sylw.

**34.** Cyrhaeddiad blaenorol disgyblion sy'n dechrau mewn ysgol.

**35.** Meintiau dosbarthiadau babanod y cyfyngwyd arnynt drwy Reoliadau a wnaed o dan adran 1 o Ddeddf 1998: caiff yr awdurdod gynnwys swm sy'n adlewyrchu unrhyw gynnydd mewn gwaraint a dynnwyd o ganlyniad uniongyrchol i'r Rheoliadau hynny.

**36.** Meintiau dosbarthiadau iau y cyfyngwyd ar y nifer ynddynt i uchafswm o 30 o ddisgyblion: caiff yr awdurdod gynnwys swm sy'n adlewyrchu unrhyw gynnydd mewn gwariant a dynnwyd o ganlyniad uniongyrchol i amodau sydd wedi'u cynnwys mewn unrhyw grant arbennig a wnaed yn unol ag adran 88A

o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 neu mewn unrhyw drefniadau ar gyfer cymorth ariannol a roddwyd yn unol ag adran 14 o Ddeddf 2002 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod safonau ysgol yn cael eu gwella drwy leihau meintiau dosbarthiadau.

**Atodiadau I-J**

**Nid oes fersiwn Cymraeg ar gael.**

**Atodiad K**

## Rhestr o Dermau

| | |
|---|---|
| AALl | Awdurdod Addysg Lleol |
| GCAH | Grant Cynnal Addysg a Hyfforddiant |
| RA | Ffurflen Cyfrifon Refeniw |